

Open Up — amgueddfeydd I bawb

Astudiaethau achos i gynorthwyo amgueddfeydd i gynyddu amrywiaeth eu hymwelwyr

Ysgrifennwyd gan

Julie Aldridge, Mel Larsen a Pam Jarvis

Crewyd ar y cyd gyda

20 amgueddfa ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig

Dylunio gan

YOUNGDESIGN.STUDIO

Cynhyrchwyd gan

AIM: Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, MA: Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon a Chronfa Dreftadaeth y Loteri

Cynnwys

Amgueddfa Cymru Tudalen 3

Beamish Tudalen 11

Amgueddfa Fyw y Black Country Tudalen 16

Amgueddfa Stori Caerdydd Tudalen 21

Amgueddfeydd Colchester + Ipswich Tudalen 27

Amgueddfa ac Oriol Derby Tudalen 32

Llyfrgell Menywod Glasgow Tudalen 36

Amgueddfa Cambridge Tudalen 41

Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML) Tudalen 45

Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon (NMNI) Tudalen 50

V&A Tudalen 54

Oriel Gelf Whitworth Tudalen 58

Astudiaeth achos: Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnwys saith amgueddfa genedlaethol ar draws Cymru a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol. Mae'r teulu o amgueddfeydd yn cynnwys: Amgueddfa Cymru Caerdydd, sydd yng nghanolfan ddinesig Caerdydd ac sydd yn arddangos y Casgliadau Celf a Gwyddorau Naturiol Cenedlaethol; Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, sydd ar hyn o bryd yng nghanol ailddatblygiad £30m; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, sydd yn dweud hanes diwydiant yng Nghymru; Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, y ddau wedi eu lleoli yn ne-ddwyrain Cymru; Amgueddfa Wlân Cymru yn ngorllewin Cymru; ac Amgueddfa Lechi Cymru yn ngogledd Cymru. Mae Amgueddfa Cymru yn sefydliad dwyieithog a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Amgueddfa Cymru

Datblygwyd y cymhelliant ymhellach ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant yn Amgueddfa Cymru pan ddaeth David Anderson yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn 2010. Yn 2012, datblygwyd gweledigaeth newydd gan Amgueddfa Cymru sydd yn ymgrynhai'r ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant: *'Ysbrydoli pobl, newid bywydau ... Ysbrydoli pobl trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i feithrin eu lles a'u hunaniaeth, i ddarganfod, mwynhau a dysgu yn ddwyieithog, a deall lle Cymru yn y byd ehangach.'*

Mae'r cyd-destun ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant yn wahanol ar draws y saith amgueddfa a oruchwylir ganddynt, yn nhermau beth sydd yn bosib ac hefyd yn nhermau beth sydd angen gan y cymunedau gwahanol sydd yn lleol i bob amgueddfa.

Dilysrwydd yw un o werthoedd allweddol yr amgueddfa ac mae hyn wedi ategu sut y mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu ymagwedd sydd yn iawn i'w casgliadau, eu cymunedau a'u gweledigaeth. Mae sicrhau bod y gwerthoedd yn cael eu byw ar

draws yr amgueddfa (ac nid ar bapur yn unig) yn hanfodol er mwyn cyflawni newid. Mae gwneud gwerthoedd y weledigaeth yn weithredol ac yn ganolog i wneud penderfyniadau hefyd yn helpu i osgoi colli'r ffocws ar gynhwysiant, pe bai er enghraifft, aelod penodol o staff yn gadael neu ddim yn ei gyrru ymlaen rhagor. Mae ymgysylltu a chael ymrwymiad gan bobl ar draws y tîm mewn strategaethau a datblygiadau newydd wedi bod yn rhan graidd o'r ymagwedd hon.

'Rydym ni eisau i'n gwaith gael effaith yn bell y tu hwnt i'n safleoedd, gan helpu i greu economi sy'n ffynnu a Chymru mwy iachus, hapusach a mwy cynaliadwy... dros y deng mlynedd nesaf rydym yn bwriadu troi'r profiad amgueddfa y tu fewn tu allan, a chreu diwylliant newydd o gyfranogi gan y cyhoedd, gan adael i ymwelyr ymdrwytho eu hunain yn ein casglidau, i ddatblygu straeon ysbrydoledig a chreu catalydd i newid eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Pobl Cymru sydd yn berchen ar ein casgliadau a byddwn yn gweithio gyda nhw a'n hymwelwyr i gyd i greu naratifau newydd cyffrous, i feithrin amgylchedd o drafodaeth gyhoeddus gan sicrhau bod pawb sydd yn ymgysylltu â ni yn teimlo croeso ac yn gadael wedi eu hysbrydoli i ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas.'

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Tra eu bod yn canolbwyntio ar ymgysylltu pobl ar draws cymysgedd o'r nodweddion gwarchoddedig, mae cyrraedd pobl o grwpiau economaidd gymdeithasol is yn arbennig o bwysig. Er enghraifft, 'roeddent yn gweithio â ffoaduriaid ar draws Caerdydd a Chasnewydd i greu 'Ty Ffoaduriaid'. Y cyfranogwyr a oedd yn dewis pob elfen o'r ty i gynrychioli eu straeon. Defnyddiwyd hyn wedyn fel pwynt i ddechrau trafod rhwng y cyfranogwyr ac eraill sydd yn ymgysylltu â'r arddangosfa. Roedd datblygu ymarferol yr arddangosyn hwn yn chwalu rhwystrau ymgysylltu ar gyfer y ffoaduriaid a'r amgueddfa, gyda'r ddau yn dysgu am ei gilydd.
- Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriol a Phrofiad Ymwelwyr, sydd yn arwain yr ymchwiliad i ffyrdd newydd o ymgysylltu ymwelwyr gydag

amgueddfeydd a chasgliadau gan adeiladu ar fentrau ymgysylltu a datblygu cynulleidfa yr oedd hi'n gweithio arnynt yn ei rolau blaenorol (yn Amgueddfeydd Glasgow ac Amgueddfeydd Brighton & Hove). Mae ymgysylltu pobl â sut maent yn gweithio yn ganolog i ehangu cynhwysiant ac ymgysylltiad, nid yn unig trwy brosiectau wedi eu targedu, ond hefyd ar draws eu gwasanaethau cyffredinol ar gyfer ymwelwyr. Maent wedi bod yn treialu ffyrdd o wneud hyn trwy waith ailddatblygu yn Sain Ffagan ac maent yn ehangu'r ymagwedd hon ar draws eu hamgueddfeydd eraill. Maent ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth profiad ymwelwyr newydd, ac yn treialu ffyrdd newydd o weithio er mwyn arbrofi gyda sut y gallent wella'r profiad ymwelwyr ar draws meysydd fel ymgysylltu, marchnata, rhaglennu a gwasanaethau ymwelwyr.

- Sefydlwyd Fforwm Amrywiaeth ganddynt i helpu i lywio ailddatblygiad un o'u saith amgueddfa, Sain Ffagan, ac mae'r fforwm hwn yn awr yn llywio meysydd eraill o waith, yn benodol ar gasglu gwrthrychau heb gynrychiolaeth ddigonol a hanesion o gymunedau BAME (pobl dduon ac Asiaid a lleiafrifoedd ethnig), LGBTQ+ ac anabl.
- Mae gwaith marchnata yn canolbwyntio ar nodi dylanwadwyr allweddol e.e. cynrychiolwyr y gymuned leol, neu ddylanwadwyr digidol fel blogwyr allweddol ar bynciau penodol, i'w helpu i gysylltu gyda'r grwpiau y maent yn ceisio eu hymgysylltu. Rhywbeth allweddol sydd wedi ei ddysgu gan hyn yw i feddwl am beth a fydd yn gallu ysgogi'r dylanwadwyr ac i adeiladu perthynasau gyda nhw (peidiwch â chymryd yn ganiataol y byddent yn caru beth 'rydych yn ei wneud yn syth ac yn eich cynrychioli yn dda!) Maent yn gobeithio ehangu'r maes hwn ymhellach yn y dyfodol.
- Maent yn gweithio'n galed i osgoi gwneud rhagdybiaethau am bobl yn seiliedig ar bwy ydynt (e.e. peidio â thrîn pobl ifanc i gyd yr un peth). Maent felly yn ceisio'n barhaol i wella eu dealltwriaeth o'r rhesymau pam y gallent ddod, eu

hagweddau, gwerthoedd a beth sy'n eu hysgogi, ac i ddefnyddio'r mewnwleidiad hwn i hysbysu eu cyfathrebu ar draws cynulleidfaoedd gwahanol.

- Caiff perthynasau gyda phartneriaid allweddol a grwpiau cymunedol eu hailgryfhau gan staff ar draws y tîm yn ymweld â nhw ac yn dod i'w hadnabod e.e. curadur, rheolwr dysgu, dylunydd, marchnatwr a.y.b. Mae cysylltu gyda ac adeiladu perthynasau gyda chyfranogwyr a phartneriaid yn helpu i hysbysu a llywio eu gwaith ac adeiladu ymddiriedaeth.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Mae rhaglennu wedi symud o'r model traddodiadol (ble mae tensiwn yn aml rhwng casgliadau ac ymgysylltu ymwelwyr), i ddull gweithredu amlddisgyblaethol. Mae cyfarfodydd rhaglen yn cynnwys staff o guradurol, blaen y ty, profiad ymwelwyr, marchnata, a.y.b. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid cynnwys hyn o ddechrau'r broses o benderfynu a datblygu. Mae hyn yn galluogi i gynhwysiant ac amrywiaeth gael eu dylunio fel elfen graidd o arddangosfeydd, nid yn unig fel gweithgareddau a fydd o bosib yn digwydd wrth eu hochr. Mae'n cynyddu dealltwriaeth o sut y gall elfennau o'r gwaith gysylltu er mwyn darparu llwybrau i'r rheiny sydd eisiau profi rhagor hefyd; ac yn nodi ac yn manteisio i'r eithaf ar bartneriaethau a fydd yn gallu cyfoethogi'r profiad, e.e. gweithio gyda Flying Start i ehangu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar; gweithio gydag Age Cymru a'r Alzheimer's Society i sefydlu gwasanaethau sydd yn gyfeillgar i ddementia.

Mae'r dull gweithredu amlddisgyblaethol hwn wedi bod yn allweddol o ran siapio'r rhaglen sydd yn awr yn helpu i yrru ail ymweliadau ar gyfer yr Amgueddfeydd.

Mae'r dull gweithredu rhaglennu yn ceisio cydbwysu gweithgareddau a fydd yn

herio a chyflwyno meddwl newydd i'r Amgueddfeydd, gyda'r rheiny a fydd yn dal dychymyg / diddordebau grwpiau gwahanol.

Mae defnyddio dull gweithredu sydd yn seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig iawn i Amgueddfa Cymru. Mae herio eu rhagdybiaethau eu hunain a defnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau yn helpu i leihau tuedd anymwybodol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

- Maent yn gwerthuso ac yn archwilio eu gwaith yn rheolaidd er mwyn cael meincnodau i osod eu nodau ar gyfer ymgysylltu dyfnach â grwpiau penodol yn eu herbyn. Maent yn casglu data yn edrych ar bwy sydd yn mynychu ond hefyd pam — beth sy'n ysgogi a lefelau boddhad. Mae'r gwerthuso hwn yn hysbysu a llywio strategaethau a pholisïau, yn eu helpu i herio unrhyw ragdybiaethau y maent yn eu gwneud am beth sydd yn berthnasol, ac yn eu galluogi i osod blaenorieathau clir am y flwyddyn sydd ar y gorwel.

Mae gwaith newydd sydd yn digwydd yn cynnwys:

- Polisi Cydraddoldeb
 - Adolygu a diweddarau'r Strategaeth Gyfranogi Cymunedol
 - Strategaeth profiad ymwelwyr newydd
- Mae'r staff i gyd yn chwarae rôl allweddol o ran cymryd gwerthoedd a'r weledigaeth yn eu blaenau. Mae'n bwysig cael ymrwymiad ar draws pob lefel — wrth gwrs mae perchnogaeth ac arweinyddiaeth gan uwch reolwyr ac ymddiriedolwyr yn hanfodol. Ond mae'n allweddol hefyd i sicrhau bod gan reolwyr canolig sefydliad yr hyder a'r sgiliau i droi'r weledigaeth yn werthoedd go iawn a ffyrdd o weithio'n ymarferol mewn reailiti ac ar draws timau gwahanol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn sefydliad mawr, sydd hefyd yn gweithio ar draws ardal ddaearyddol eang. Mae Amgueddfa Cymru yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi rheolwyr canolig yn well, a sicrhau eu bod yn ymwneud yn fwy â datblygu prosiectau newydd neu gyfeiriadau strategol newydd, er mwyn manteisio o ac adnabod eu dealltwriaeth a'u harbenigedd; ac annog

perchnogaeth a mewnbwn i gyfarwyddo'r dyfodol a chynyddu hyder wrth fwrw ymlaen â mentrau newydd.

- Maent wedi adolygu sut y maent yn recriwtio ac wedi nodi cymwyseddau allweddol i gynorthwyo'r gwerthoedd a'r weledigaeth. Mae hyn wedi arwain at recriwtio neu ddyrchafu pobl sydd wedi arddangos angerdd a brwdfrydedd ar gyfer cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae hyn wedi cyflwyno agwedd a sgiliau newydd i Amgueddfa Cymru sydd wedi arwain at fwy o gysylltiadau go iawn gyda grwpiau ac unigolion allweddol. Er enghraifft, mae eu Rheolwr Ymgysylltu a Chyfranogi Cymunedol, Owain Rhys, yn cynrychioli Amgueddfa Cymru ar nifer o bwyllgorau fel Pwyllgor Llywio Mis Hanes Du, a Fforwm LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) Caerdydd a'r Fro. Mae aelodau eraill o staff yn cynrychioli'r Amgueddfa ar grwpiau fel Partneriaeth Ddysgu Trelai a Dinas Loches Abertawe, er mwyn rhoi yn ôl a meddwl am ffyrdd y mae'r amgueddfa yn gallu helpu eu hagenda i ddatblygu perthynas ddeuffordd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cymryd amser ac ymrwymiad, ond mae'n elwa yn nhermau nifer ac amrywiaeth y bobl sydd erbyn hyn yn chwilio am yr amgueddfa fel partner neu gydweithredwr potensial.
- Mae'r Amgueddfeydd yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o wahanol gymdeithasau a chyrrff cynghori er mwyn hysbysu a llywio eu dysgu a'u helpu i gyrraedd a chynorthwyo'r grwpiau newydd. Er enghraifft, roeddent yn gweithio gyda'r Gymdeithas Syndrom Down i ddatblygu menter gwirfoddoli newydd. Prosiect oedd hyn a gychwynwyd gan Bennaeth Gwasanaethau Ymwelwyr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae hyn wedi effeithio ar y gwirfoddolwyr ac wedi darparu cyfleoedd gwych i'r Tîm Gwasanaethau Ymwelwyr i ddysgu am sut i groesawu ac ymgysylltu orau ag ymwelwyr â Syndrom Down.
- Maent hefyd yn bartner arweinyddol ar brosiectau cenedlaethol fel Cyfuno, menter gan Lywodraeth Cymru sydd yn annog ac ymgrymuso pobl i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan drawsnewid eu hyder a'u hysgogiad, a helpu iddynt ddatblygu'r sgiliau, profiad a

chymwysterau i'w helpu i ddod o hyd i waith. Mae'n cynorthwyo dysgu i bob oedran hefyd, ac yn gweithio i wella eu iechyd a'u lles corfforol a meddwl. Mae hyn yn cysylltu Amgueddfa Cymru i elusennau trydydd sector, i gymunedau ac i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol eraill, wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i archwilio sut y gall diwylliant eu helpu i daclo effeithiau tlodi ar draws Cymru.

- Maent hefyd wedi bod yn rhan o brosiectau DU eang sydd â'r nod o sichrau amrywiaeth cynulleidfaoedd a gwneud amgueddfeydd yn gynhwysol ac yn gyfranogol, fel Our Museum a ariennir gan y Paul Hamlyn Foundation, a rhaglen Museums Association's Transformers, i rannu a dysgu gydag amgueddfeydd eraill, a datblygu rhwydwaith o gymorth.

Enghreiffiau o beth maent wedi ei gyflawni

- Trwy Our Museum, a ariennir gan y Paul Hamlyn Foundation, mae eu gwirfoddolwyr yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru wedi amrywio'n sylweddol o fod yn bennaf gwyn, benywaidd, dosbarth canol, ac wedi ymddeol. Mae'r proffil erbyn hyn tua 50% yn wrywaidd a 40% yn ddiwaith. Cyflawnwyd hyn trwy weithio'n agos â phartneriaid yn y gymuned gydag arbenigedd mewn gwirfoddoli, fel y WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), a mabwysiadu dull gweithredu rhwydweithiol trwy ddylanwadwyr a phartneriaid i adeiladu perthynasau â gwirfoddolwyr newydd. Roedd hyn yn perthyn hefyd i gronfa HLF a oedd yn galluogi prosiect adnewyddu mawr yn seiliedig ar ffyrdd cyfranogol o weithio.

Y cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfa Cymru

- Beth yw pwrpas yr amgueddfa? Pam y mae'n bodoli? Beth yw ei nod ac i bwy?
- Pam ydym yn casglu? Pam fod y celf neu wrthrych hwn yn bwysig? Ac i bwy? Sut y gallech chi [aelod o staff / gwirfoddolwr] gyfrannu at gyflawni hyn?

- Pam ydym yn dal i wneud X? Ydy hyn yn dal i fod yn berthnasol i beth 'rydym yn ceisio ei gyflawni? Ydy hyn yn dal i fod yn berthnasol i'r bobl 'rydym yn ceisio eu hymgysylltu?
- Ble mae'r dystiolaeth? A ydym yn herio ein tybiaethau ac yn osgoi ein tuedd anymwybodol ein hunain?
- Sut mae angen i'n sgiliau ac arbenigedd addasu a datblygu i ymateb i fydd sydd yn newid? E.e. datblygiad digidol a hyfforddiant i staff i alluogi pobl ar draws yr Amgueddfa (yn cynnwys staff iaith Gymraeg a iaith Saesneg) i gyfrannu at sgwrsiau arlein; hyfforddi rhyngddisgyblaethol i staff er mwyn eu galluogi i ymateb i dirlun cyfreithiol sydd yn newid (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru sydd yn cynnwys dyletswyddau cyfreithiol mewn ffyrdd o weithio er mwyn cyfoethogi cynhwysiant, llesiant, cynaliadwyedd ac ymgysylltu diwylliannol ar draws gwasanaethau cyhoeddus a Safonau Iaith Gymraeg).
- Pam ydym yn gwahodd â phartner neu grwp Amgueddfa Cymru penodol i ymgysylltu? Sut y byddent yn elwa?

Astudiaeth achos: Beamish

Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Beamish

Mae Beamish, a oedd yn wreiddiol yn weledigaeth arloesol Frank Atkinson, yn amgueddfa fyw awyr agored yn County Durham sydd yn dweud hanes bywyd pob dydd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr yn ystod y 1820au, 1900au a'r 1940au. Dros y pum mlynedd nesaf bydd yr atyniadau amrywiol sydd yn cynnwys tref, fferm weithredol, siopau a thrafnidiaeth y cyfnod, yn cael eu cyfoethogi ymhellach drwy 'Remaking Beamish', prosiect £18m sydd yn mynd i gymryd yr amgueddfa ymlaen i gof byw. Mae'r cynllun yn cynnwys tref a fferm o'r 1950au, canolfan arbennig i bobl hyn a rhai sydd yn byw gyda dementia mewn bloc o Hen Gartrefi Glowyr, a Thafarn Goetsh Sioraidd a fydd yn cynnig llety dros nos.

Mae tîm Beamish ar hyn o bryd yn gweithio ar weledigaeth 12-blynedd a amlinellir yn eu "Cynllun Datblygu ac Ymgysylltu 2013-2025" (DEP). Mae'r DEP yn dychwelyd at weledigaeth wreiddiol Frank Atkinson ar gyfer yr amgueddfa, gan amlinellu'r pwysigrwydd o ddweud hanes y cyfnodau o amser sydd o fewn cof byw, a datblygu amgueddfa sydd hyd yn oed yn fwy cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Pwrpas:

'Amgueddfa fyw, gweithredol sydd yn defnyddio ei chasgliadau i gysylltu â phobl o bob rhan o fywyd ac yn dweud hanes bywyd pob dydd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr'

Tair egwyddor arweiniol Beamish:

1. Rhoi ymwelwyr yn gyntaf mewn popeth 'rydym yn ei wneud.
2. Ymgysylltu cymunedol go iawn — galluogi cyfranogaeth mewn gwneud yr amgueddfa, creu cysylltiadau sydd yn parhau.

3. Hunan-ddibyniaeth — ysbryd entrepreneuriaidd sydd yn edrych am gyfleoedd newydd i dyfu a chyrraedd rhagor o bobl.

Mae pwrpas craidd Beamish yn weladwy ar ymweliad: mae popeth wedi ei osod i fyny i adlewyrchu hanes a hunaniaeth pobl leol o bob rhan o fywyd mewn ffordd ddilys. Yma, caiff bywyd pob dydd ei ddathlu.

Mae parch ar gyfer yr ymwelydd yn uchel iawn ac mae eu hanghenion yn dod yn gyntaf yn Beamish. Mae pob aelod o staff a'r gwirfoddolwyr i gyd yn gwisgo mewn dillad y cyfnod er mwyn rhoi profiad dilys o'r Gogledd Ddwyrain dros amser. Nid yw ymwelwyr yn dysgu yn unig am hanes yr ardal — maent yn cael profi golygfeydd, swm a hyd yn oed blas y gorffennol.

Yn hytrach na labelu pobl, mae staff Beamish yn aml yn siarad am ymgysylltu â chymuned daearyddol. Yma mae amrywiaeth yn golygu cynhwysiant drwy ddilysrwydd y casgliadau a'r profiadau, a 'sicrhau nad ydym yn colli unrhyw straeon oherwydd gwneuthuriad y staff.' Mae canran fawr o'r staff yn dod o'r ardal leol (mae 27% yn dod o Stanley, ardal sydd yn wynebu haenau niferus o amddifadedd) ac mae 7% yn nodi bod 'ganddynt anabledd'.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

'Yn draddodiadol roedd amgueddfeydd yn cyflogi pobl a oedd yn caru pethau, nid pobl...'

- Mae Beamish wedi herio'r proffil nodweddiadol o ymwelwydd dosbarth canol amgueddfeydd yn llwyddiannus. Dan arweiniad y cyfarwyddwr entrepreneuriaidd Richard Evans ers 2008, mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu o 297,000 (2008/09) i dros 750,000 (2016/17) ac erbyn hyn mae 53% o gynulleidfa Beamish yn dod o gategori cymdeithasol C2DE, gyda'r categori DE yn cynyddu o 7% dros y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae perchnogaeth gymunedol hefyd yn ymddangos yn y cyfrifon. Yn 2016/17 daeth dros hanner eu hincwm o fynediadau a'r gweddill o weithgaredd masnachu (manwerthu ac arlwyyo), sydd yn gwneud yr amgueddfa yn annibynnol lwyddiannus ac yn hunan-ddibynnol.
- 'Eu hamgueddfa nhw ydyw'. Yn adlewyrchu parch anferthol i'r bobl leol y maent yn eu gwasanaethu, mae'r casgliad yn cael ei yrru gan y gymuned: mae popeth — o gwpan te mewn cartref Edwardaidd i'r chwech Bwthyn Hetton — yn dod o bob leol. 'Bob dydd rydym yn cael rhodd gan ryw ddeg o bobl'.
- O'r 4 miliwn o wrthrychau yn Beamish, mae 90% yn cael eu harddangos yn barhaol, ond mae'n glir mai'r bobl y tu ôl i'r gwrthrychau yw'r peth pwysicaf: mae gwybodaeth a mewnbwn yr ymwelwyr yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. 'Rydym yn casglu straeon yn ogystal â gwrthrychau'.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Yn fewnol, mae synnwyr cryf o bwrpas, ymagwedd gadarnhaol a rhyddid yn ategu nifer o strategaethau llwyddiant. Mae hyn yn arwain at lefel uchel o falchder a pherchnogaeth ymysg staff ac maent yn teimlo bod hawl gan eu hymwelwyr deimlo fel hyn hefyd. Mae cryfderau ac angerdd unigolion yn cael eu hannog i ddatgelu eu hunain, fel mewn achos sgiliau animeiddiwr brwdfrydig a oedd yn cael ei ddefnyddio i greu ffilmiau byr ar gyfer platfformau cyfryngau cymdeithasol amrywiol yr amgueddfa. Mae staff yn rhydd i awgrymu rhywbeth newydd, ceisio pethau a chymryd risg. Os ydy pethau ambell waith yn methu, 'Mae'n iawn, dysgwch o'r profiad, rhowch gais arall arni gyda mân newidiadau'.
- Mae hwyl yn air y mae'r tîm yn Beamish yn defnyddio yn aml: 'nid yw hyn fel ysgol, nid oes angen iddi fod fel, "mae'n RHAID i chi ddysgu yma"'.
- 'Nid popeth yw panelau.' Mae ganddynt fwy na 500 o wirfoddolwyr ac mae nifer sylweddol ohonynt yn 'Ymgysylltwyr', aelodau o'r tîm mewn gwisgoed y

cyfnod sydd yn helpu i ddod â phrofiad yr ymwelwyr yn fyw drwy ymgysylltu ymwelwyr gyda straeon llawn ffeithiau, atgofion, ac ateb cwestiynau a gwneud gweithgareddau. Caiff ymgysylltwyr eu harwain gan yr ymwelydd, felly maent yn sicrhau i geisio darllen yr ymwelydd yn drylwyr. Gall aelod o staff hefyd fod yn Ymgysylltydd, a'r syniad yw na ddylech allu dweud y gwahaniaeth, fel ei fod yn 'un tîm unedig'.

- Maent wedi meddwl yn ofalus am sut i helpu'r ymwelwyr i gyd gael y mynediad y maent yn ei ddymuno: unwaith i ymwelydd brynu Cerdyn Beamish Unlimited maent yn cael ymweld cynifer o weithiau ag y dymument. Mae cyfraddau bws â chymhorthdal hefyd ar gael — mae ymwelwyr sydd yn teithio i'r amgueddfa ar y bws yn cael 25% i ffwrdd o gost mynediad.
- Mae arddangosfeydd yn barhaol felly mae Beamish yn cadw pethau yn ffres drwy sicrhau bod rheswm bob amser i ddychwelyd. Mae ychwanegu atyniadau newydd wedi bod yn fuddiol, a dyma un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol ar gyfer ysgogi ymweliadau newydd ac ailadrodd, yn ychwanegol i'r gwyliau a digwyddiadau tymhorol a gynllunir trwy gydol y flwyddyn.
- Maent yn sicrhau eu bod yn weladwy mewn cymunedau lleol drwy sefydlu stondinau a gosodweithiau yn cynnwys lolfa a charafan o'r 1950au, mewn 'llefydd ble me pobl' fel ffeiriau treftadaeth lleol, canolfannau siopa ac arhosiadau Metro.
- Mae adeiladu partneriaethau ymatebol yn allwedol i 'gael y bobl iawn, a chael y dull gweithredu iawn'. Maent yn credu bod ansawdd yn dod o berthynasau gydag arweinwyr cymunedol a'u grwpiau. 'Mae ein prosiectau cryfaf a gorau wedi digwydd pan fod pobl yn dod atom ni'. Unwaith i brosiect ddod i ben eu nod yw gadael grwpiau gyda'r sgiliau a'r adnoddau i'w cynorthwyo wrth barhau yn eu blaenau. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosfeydd, darlithoedd, a gwrthrychau wedi eu benthyg o'r gymuned, ac yn bwysicach fyth pwynt cyswllt yn yr amgueddfa fel nad ydynt ar goll mewn system heb wyneb.

Cwestiynau a ofynnir gan Beamish

- Beth yw ein pwrpas?
- Pam ydym ni yma?
- Beth yw'r stori yn y gymuned hon?
- Sut mae ein hymwelwyr eisiau profi eu hamgueddfa eu hunain?
- Beth arall y gallwn ei wneud i wella eu profiad?
- Sut y gallwn wneud i bobl deimlo'n gartrefol?
- Am beth 'rydym yn angerddol yn unigol amdano a sut y bydd hyn yn ein helpu i gyflenwi profiad hyd yn oed yn well i'n hymwelwyr?
- Pam lai?

Astudiaeth achos: Amgueddfa Fyw y Black Country

Pam fod empathi a chwilfrydedd yn gatalyddion i newid

Mae Amgueddfa Fyw y Black Country yn amgueddfa awyr agored o adeiladau hanesyddol sydd wedi eu hail leoli o'u safleoedd gwreiddiol, mewn 26 acer o dir diwydiannol sydd wedi'i adfer yng nghanol y Black Country, 10 milltir i'r Gorllewin o Birmingham. Mae casgliadau ac arddangoswyr mewn gwisgoedd y cyfnod y portreadu profiad byw o 300 mlynedd o fywyd yr ardal, gyda ffocws ar 1850-1940.

Mae pobl leol yn angerddol am hanes y Black Country ac mae llawer o straeon sydd angen eu hadrodd gan yr Amgueddfa. Mae eu gwobr ddiweddar gan y Loteri Cenedlaethol o £9.8m tuag at eu prosiect £21.7m 'Forging Ahead' yn rhoi cyfle unwaith mewn bywyd iddynt ymchwilio straeon ac adeiladau sydd yn perthyn i'r 1940au-60au yn cynnwys effaith ymfudiad ar strwythurau diwydiannol a chymdeithasol.

Mae gan Reolwr Datblygu Cynulleidfaoedd Strategol yr Amgueddfa, Glenis Williams, ddull gweithredu aml-haenog i reoli prosiect, adnabod eich cynulleidfa, gosod amcanion clir a dewis y technegau gorau; i gyd yn elfennau pwysig i gael canlyniadau.

Wedi gweithio yn y celfyddydau am 20 mlynedd ac fel rhywun â hunaniaeth Affricanaidd-Caribïaidd, roedd hi eisiau i'w hanes gael ei adlewyrchu yn naratif yr Amgueddfa. Mae gan y Chwyldro Diwydiannol a'r Astudiaeth Achos Prydeinig: Ymerodraeth Amgueddfa Fyw y Black Country gyrraedd mor eang ac yn croesi cymaint o ffiniau ble'r oedd pobl yn sumud i'r Black Country o bob cornel y byd. Mae'r hanesion cudd hyn yn elfennau pwysig mewn dweud hanes y Black Country yn ei gyfanrwydd.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

‘Wrth i’r DU brofi amrywiaeth gynyddol mae rî gan ein Hamgueddfa mewn creu cydlynïad cymunedol ac archwilio i’r materion o wahanu cymdeithasol a diffyg goddefgarwch o’r ‘llall’ drwy ddod â chymunedau at ei gilydd ar draws ffiniau cymdeithasol a diwylliannol.’

Mae 17% o’r bobl yn nalgylch yr Amgueddfa yn dod o grwpiau BAME (pobl dduon, ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) ond mae angen adlewyrchu’r demograffeg hwn yn well ym mhroffil ymwelwyr yr Amgueddfa (sydd ar hyn o bryd tua 6%). Mae hi’n pleidio achos ffyrdd creadigol i gynyddu sut y caiff y grwpiau hyn eu cynnwys ar bob lefel trwy gynrychioli haenau newydd o hanes y Black Country gan ddechrau gyda: ‘Os nad ydych erioed wedi ymweld â’r Amgueddfa hon, pam fyddwch yn mynd?’

Strategaethau profedig

- Cyfranogaeth ac ymgysylltiad lleol: chwilio am bobl i helpu i froceru perthynasau newydd gyda grwpiau lleol a datrys gwrthwynebiad cychwynol drwy siarad â nhw am beth sydd yn bwysig iddynt.
- Adnabod eich cynulleidfaoedd: pwy ydynt, pwy allent fod a beth y maent yn ei ddymuno?
- Bod yn hyblyg: mabwysiadu safbwynt ehangach a mwy cynrychioladol o orffennol yr ardal drwy ddweud hanesion gwahanol drwy ei chasgliadau a gweithgareddau.
- Ymestyn allan: creu llwybrau newydd gyda’r nod o gynyddu cynhwysiant trwy wahanol fathau o bwyntiau mynediad drwy weithio ag amrywiaeth ehangach o wirfoddolwyr sydd yn ymddwyn fel llysgenhadon i’r amgueddfa.

Mae enghreifftiau yn cynnwys

- ‘Sorry! No Coloureds, No Irish, No Dogs’. Comisiynwyd y ddrama hon fel modd o archwilio materion anodd ar brofiadau ymfudiad. Mae’r teitl yn dod o boster am lety yn y 1950au. Mynychwyd y ddrama gan 300 o bobl, dan anogaeth grwp llywio cymunedol a oedd yn cysylltu â rhwydweithiau lleol. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys uwch reolwyr ac aelodau o fwrdd yr Amgueddfa.
- Sefydlwyd dau banel cyngori cymunedol. Mae cyfanswm o 26 aelod yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ac anghenion, gan gyflwyno lleisiau newydd i’r drafodaeth.
- Mewn cyfarfodydd rheolaidd, maent yn cyfrannu at Strategaeth Ddatblygu’r Gynulleidfa y BCLM ac mae’r Prif Swyddog Gweithredol yn mynychu ambell waith i wrando ar eu safbwyntiau.
- Mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu fel y map mynediad newydd.
- Mae straeon heb eu hadrodd yn cael eu casglu trwy BCLM: Forging Ahead — prosiect hanes ar lafar a fydd yn recordio profiadau pobl leol oymfudiad gan weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn y gymuned.
- Roedd ‘Sparking off new connections through the Museum’s collections: a Festival of Light’ yn arddangos casgliad yr Amgueddfa o olau hanesyddol mewn gorymdaith gymunedol gydag adloniant traddodiadol gan ddrymwyr Dhol a gosodweithiau celfyddydol. Roedd chwech grwp lleol amrywiol, er enghraifft y British Sikh School, yn gweithio gyda’i gilydd am y tro cyntaf i arddangos lanternau papur mewn gorymdaith drwy’r Amgueddfa.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gynyddu cynhwysiant yn yr Amgueddfa trwy gyfarfodydd traws-adrannol rheolaidd gyda thimau curadurol, dysgu, gweithrediadau a gwirfoddoli.
- Cyfleoedd hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr: Iaith Arwyddion Prydain, hyfforddiant colli golwg, teithiau Sain Ddisgrifiad a hyfforddiant Cyfeillion-Dementia.

Roedd hyn i gyd yn arwain at

- ‘Sorry! No Coloureds, No Irish, No Dogs’ yn cael gwahoddiad yn ôl i gefnogi prosiectau eleni yn cynnwys Migration Stories.

- Cyfleoedd i barhau i gysylltu â chwech grwp cymunedol amrywiol gwahanol sydd wedi cymryd rhan yn natblygiad y Festival of Light.
- Bydd BCLM yn treialu cyfleoedd newydd i gynulleidfaoedd gyfranogi, fel nosweithiau Twilight Fridays sydd yn cynnig gweithgareddau gwahanol bob tro er mwyn mabwysiadu ymweliadau ailadrodd.
- Prisiau mynediad diwygiedig gyda mynediad gofalwyr hanfodol.
- Casglu tystiolaeth ar ddemograffeg cynulleidfaoedd drwy weithio gydag ALVA, Audience Finder a Bluegrass Research.

Sut y maent yn cyflawni hyn

‘Rydym yn dechrau trwy gydnabod y syniad bod treftadaeth yn symudol a bod hanes yn cynnwys haenau sydd wedi eu cysylltu. Mae beth ‘rydym ni yn ei ystyried yn ‘nodweddiadol Saesnig’ yn newid sut y mae’r gymdeithas yn edrych dros amser. Fel Amgueddfa, mae angen naratifau newydd arnom sydd yn adlewyrchu ac yn trafod y newidiadau cymdeithasol hyn.’

Marchnata sydd wedi’i deilwra a phrosiectau datblygu sydd yn lledaenu’r neges: ‘mae’r amgueddfa hon yma i chi’.

Annog cefnogaeth y Prif Swyddog Gweithredol a’r Dirprwy Swyddogion Gweithredol trwy gyfarfodydd a diweddariadau rheolaidd.

Ymrwymiad i raglen allgymorth gryf a chadarn er mwyn sefydlu perthynas iach â grwpiau a rhanddeiliaid cymunedol.

Torri i lawr y silos sefydliadol sydd yn rhwystro arallgyfeirio trwy eiriolaeth a chyfathrebu effeithiol, ‘unwaith fod parodrwydd i ddysgu, ‘rydych ar y trywydd iawn’.

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfa Fyw y Black Country

Ydy model diffyg o ehangu amrywiaeth yn

- wir yn cynnal deialogau newydd a gwahanol ar feysydd o hanes nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn ddigonol?

- Pwy o fewn yr amgueddfeydd sydd yn dylanwadu ar ba hanesion y mae'n eu hadrodd?
- Pwy sydd yn dal yr ysgrifbin sydd yn dweud yr hanesion? Pwy sydd â'r grym i ddylanwadu ar eraill? Pwy sydd â'r awdurdod i gymryd risgiau, a herio ffyrdd newydd o weithio i yrru newid?

Astudiaeth achos: Amgueddfa Stori Caerdydd

Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Amgueddfa Stori Caerdydd

Agorwyd Amgueddfa Stori Caerdydd yn 2011 i ddarparu amgueddfa i ddweud stori Caerdydd am y tro cyntaf. O ddiwrnod cyntaf y prosiect i sefydlu'r Amgueddfa, roeddent yn sicrhau bod cymuned Caerdydd yn llywio. Roeddent yn dechrau o'r dechrau, ac nid oedd ganddynt gasgliad ar ddechrau'r broses, felly roeddent yn gweithio gyda phobl Caerdydd i benderfynu ar ba straeon i'w hadrodd. Dywedodd pobl wrthynt eu bod yn dymuno gweld safbwyntiau amrywiol. Nid y pethau da yn unig, ond pob ochr o Gaerdydd.

Datblygwyd gweledigaeth a chenhadaeth gryf ganddynt a rannwyd gan y tîm a dyma beth oedd yn arwain eu datblygiad. Mae hyn yn cynnwys:

'... bydd cymunedau yn ei charu... adnodd cynhwysol, cyffrous sydd yn ysbrydoli; gan ddod â phobl at ei gilydd i'w helpu i ddarganfod rhagor amdanynt eu hunain, ei gilydd ac am Gaerdydd, drwy ryngweithio cymdeithasol a dysgu.'

Nod yr Amgueddfa yw creu casgliad ar gyfer ac o gymuned amrywiol Caerdydd ac mae'r mwyafrif o'r casgliad wedi dod o roddion. Maent yn dadansoddi drwy straeon — atgofion yr unigolyn, straeon sydd wedi eu pasio i lawr drwy genedlaethau, ac o ddeunydd archifol. Caiff safbwyntiau amrywiol o'r un wrthrych eu rhannu drwy sgrin gyffwrdd.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Pobl Caerdydd sydd yn datblygu'r amgueddfa sydd yn iawn iddynt drwy ymgynghori cyhoeddus, digwyddiadau sydd wedi eu creu ar y cyd, grwpiau ffocws, paneli cynghori a.y.b. Mae popeth yn yr amgueddfa, o'r ffontiau a

ddefnyddir, i'r gweithgareddau a drefnir, i'r math o berthynas sydd ganddynt gyda'u hymwelwyr yn cael eu llywio gan wybodaeth a gyda phobl Caerdydd.

- Maent yn treulio llawer o amser 'yn eu cynefin'. Maent yn ymweld â phobl wahanol mewn amgylcheddau ble y maent yn gyfforddus. Maent yn buddsoddi amser mewn dod i adnabod pobl a deall beth sydd yn bwysig iddynt.
- *'Rydym yn gwybod bod popeth 'rydym yn ei wneud neu yn cynllunio yn mynd i gael ei groesawu gan ein bod yn gofyn, yn gwrando ac yna'n gweithredu'.*
(Victoria Rogers, Rheolwr yr Amgueddfa)
- Mae partneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol eraill a nifer o grwpiau yn y gymuned yn eu galluogi i greu digwyddiadau penodol, perthnasol sydd yn estyn allan i bobl ar draws Caerdydd a dangos 'mae hyn i chi'.
- Maent yn treulio amser i adeiladu ymddiriedaeth a pherthynasau gyda grwpiau cymunedol i ffwrdd o'r safle ac yna yn eu 'gwahodd draw atom ni' ac yn eu hannog i wahodd eraill.
- Maent wedi cadw rhan o'r amgueddfa fel 'Sioe Arddangos o'r Ddinas', gwagle i'r grwpiau cymunedol greu eu harddangosfa eu hunain gyda hwyluso a chymorth gan aelod o staff. Hysbysebwyd y cwpwl o gyfleoedd cyntaf ond ers hynny, nid ydynt wedi gorfod eu hysbysebu o gwbl. Mae cymysgedd amrywiol o bobl yn mynychu, ac mae pob lle wedi ei archebu tan 2019.
- Mae dehongli yn rhannu safbwyntiau amrywiol. Mae gemau ac arddangosfeydd rhyngweithiol yn annog pobl i feddwl am beth y mae Caerdydd yn golygu iddynt yn bersonol, e.e. mae gêm 'creu eich dinas' ble mae staff blaen y ty yn annog i bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd i weithio gyda'i gilydd i greu eu dinas ddelfrydol.
- Nid yw'r amgueddfa yn bodoli i bobl sydd yn ymweld â'r adeilad yn unig. I gyrraedd pobl nad ydynt yn gallu dod i'r Amgueddfa (yn enwedig rhai sydd yn byw ym 'Mwa De' Caerdydd neu 'Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf' — ardaloedd o dlodi yng Nghaerdydd) maent yn creu arddangosfeydd yn rheolaidd ac yn mynd â nhw ar daith. Er enghraifft, mae arddangosfa sydd yn rhannu straeon gan bobl Caerdydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf erbyn hyn wedi teithio o gwmpas canghennau llyfrgelloedd trwy'r wlad, gan gyrraedd dros 49,000 o bobl.

- Ar hyn o bryd maent yn datblygu ‘amgueddfa guerrilla’ — casgliad o ôl-gerbydau sydd yn dod at ei gilydd i greu gwagle arddangos dros dro sydd yn arddangos yn eich ardal leol am gyfnod byr o amser. (Yn debyg i Sycas o’r 19eg Ganrif!) Bydd hyn yn eu galluogi i greu amgueddfa ategol sydd bob amser ar daith, sydd yn chwalu rhwystrau mynediad drwy dod â’r amgueddfa i gymunedau lleol. Bydd arddangosfeydd a chynnwys yn cael eu creu ar y cyd mewn partneriaeth â’r cymunedau hynny.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Maent wedi mabwysiadu ethos cymuned-ganolog. Cymunedau sydd yn siapio a llywio’r Amgueddfa.
- Dim ond pobl sydd yn credu yn yr ethos hwn ac yn rhannu eu gwerthoedd sydd yn cael eu recriwtio ganddynt.
- Mae’r tîm yn fach (9 aelod o staff Blaen y Ty rhan amser, a 6 arall adeg ysgrifennu’r cyhoeddiad hwn). Mae un person yn canolbwyntio ar allgymorth, ond mae ymgysylltu’r gymuned yn rhan allweddol o bob rôl.
- Maent yn gweld allgymorth a chasgliadau cymunedol fel ‘dwyr ochr o geiniog’ ac maent felly yn gweithio yn agos gyda’i gilydd.
- Mae angen llawer o benderfyniad ac ymroddiad gan Victoria Rogers, Rheolwr yr Amgueddfa a’i thîm er mwyn gyrru hyn ymlaen a chadw’r weledigaeth a’r ethos gwreiddiol yn fyw.
- Mae’r tîm blaen y ty wedi cael hyfforddiant ac anogaeth i wrando am beth sydd angen ar bobl a beth sydd o ddiddordeb iddynt, er mwyn bwydo hyn yn ôl i’r tîm mewn cyfarfodydd rheolaidd er mwyn galluogi i’r sefydliad barhau i ddysgu a gwella.
- Nid yw Victoria yn meddwl am ymgysylltu mewn perthynas â’r cyhoedd yn unig. Mae hi hefyd yn ystyried sut i gynnal perthynas gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae ffeithluniau, llyfryn sydd yn rhannu adborth ansoddol, a straeon am effeithiau i gyd yn enghreifftiau o’r ffyrdd y maent yn cael y newyddion a’r wybodaeth ddiweddaraf.

- Maent yn meddwl am sut y gallent gynorthwyo a galluogi eu partneriaid. Yn aml mae hyn yn golygu eu helpu i ddiogelu arian i gynnal rhaglenni e.e. maent yn gweithio gyda sefydliadau cymorth anabledau dysgu fel Rhoi Pobl yn Gyntaf Caerdydd i greu rhaglen sydd yn galluogi i oedolion ag anawsterau ddysgu i ymgysylltu ag amgueddfeydd.

Enghreifftiau o beth maent wedi ei gyflawni

- Pan agorwyd yr Amgueddfa yn gyntaf yn 2011 roedd proffil yr ymwelwyr yn tueddu i atseinio'r stereoteip o ymwelydd amgueddfa gyda'r mwyafrif yn fenywaidd, dros 55 oed ac wedi ymddeol. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi adborth ar ddiwedd 2016 mae'n glir fod y proffil hwn wedi newid llawer. Tra bod y mwyafrif yn dal i fod yn fenywaidd (69%), drwy raglennu gwaith teuluoedd yn rheolaidd a chadw mewn cysylltiad gyda theuluoedd trwy fentrau fel clwb 'Dinky Dragons', erbyn hyn mae 62% o'u hymwelwyr dan 44 oed, yn cynnwys 11% dan 16 oed.
- Yn ychwanegol, mae proffil ymwelwyr yr Amgueddfa erbyn hyn hefyd yn fwy cynrychiadol o'r ardal leol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos fod 15% o'r boblogaeth yn BME (Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig). Mae Stori Caerdydd wedi newid proffil ei hymwelwyr o 7% BME yn 2011 i 17% yn 2016, gydag 19% arall yn rhoi 'cymysg — arall' neu 'ethnigedd arall' ar eu ffurflen. Eto, mae hyn wedi bod yn ganlyniad o atgyfnerthu negeseuon bod yr Amgueddfa yn berthnasol. Mae adeiladu perthynasau cadarnhaol a pharhaus gyda sefydliadau cymunedol, rhannu straeon perthnasol trwy gydol yr orielau, sicrhau bod eu lluniau a'u deunyddiau marchnata yn dangos cymysgedd amrywiol o bobl (gwahoddwyd pobl o'u rhaglenni i ymweld ar ddiwrnod penodol ar gyfer sesiwn tynnu lluniau) a rhentu gwagle i'w ddefnyddio gan gymysgedd amrywiol o grwpiau cymunedol e.e. mae Diverse Cymru yn gleient rheolaidd, sydd yn eu galluogi i annog cyfranogwyr i rannau eraill o'r Amgueddfa.
- Mae Stori Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus o ran cyrraedd cymysgedd amrywiol o wirfoddolwyr, ond dysgwyd bod angen amser ac adnoddau yn

barhaus i sicrhau bod y rhaglen i wirfoddolwyr yn gallu cael ei rheoli mewn ffordd sydd yn ei gwneud yn gynaliadwy, yn cynnal diddordeb y gwirfoddolwyr ac aros yn berthnasol iddynt. Roedd cais i arallgyfeirio gwirfoddolwyr gan ddefnyddio cyllid HLF yn 2013 yn denu 94 o wirfoddolwyr newydd . Roedd 24 o'r rhain yn bobl ifanc nad oeddent mewn addysg ac roedd 15 yn BME.

- Recriwtiwyd grwp o bobl ifanc 11-18 oed fel gwirfoddolwyr i gynghori'r Amgueddfa ar sut i'w gwneud yn fwy perthnasol i bobl o oedran tebyg iddynt. Roeddent yn gweithio gyda'r swyddog dysgu ac allgymorth ac yn creu arddangosfa eu hunain, yn cynnal eu digwyddiad eu hunain, ac yn casglu gwrthrychau ar gyfer casgliad yr Amgueddfa.

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfa Stori Caerdydd

- Beth ydy [ychwanegwch y grwp] eisiau i'r Amgueddfa / arddangosfa / prosiect ddweud am Gaerdydd? Beth fyddent yn dweud sydd yn cynrychioli eu stori orau?
- Sut y gallwn greu cyfleoedd i ddod yn arfer lleol i bobl? Lle sydd yn gwneud iddynt deimlo perchnogaeth?
- Sut y gallwn ymgysylltu a chynnwys y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol eraill a chynnal eu brwdfrydedd ar gyfer y prosiect?
- Mae dylanwad yn gorwedd mewn amlygrwydd — sut y gallwn fod yn fwy gweladwy o fewn cymuned X? Pwy ar gyfryngau cymdeithasol sydd yn gallu ein helpu i gyrraedd y bobl yr hoffwn eu gweld yn yr amgueddfa? Pwy yw'r gwarchodwyr a'r dylanwadwyr y gallwn adeiladu perthynas gyda nhw?
- Pwy yw perchennog y stori? Safbwynt pwy ar ddelwedd neu wrthrych 'rydym yn ei gyfleu? Sut y gallwn rannu safbwyntiau amrywiol i osgoi tuedd anymwybodol ein hunain? Mae hyn wedi bod yn rhannol werthfawr fel dull gweithredu wrth ddweud straeon a fydd efallai yn teimlo'n anghyfforddus heddiw e.e. hanes LGBT, gan sicrhau bod cyd-destun yr amser yn cael ei rannu drwy ddeunydd archif ac arbenigedd curadurol, rhannu atgofion pobl Caerdydd (neu straeon sydd wedi eu pasio i lawr), a safbwyntiau o sut y mae pethau yn symud ymlaen erbyn hyn hefyd yn cael eu cynrychioli.

- Oes angen i'n blaenoriaethau neu dargedau newid er mwyn datblygu rhaglen ar dermau y gymuned a datblygu rhywbeth ystyrlon iddynt?
- Beth 'rydym yn osgoi ei wneud am nad ydynt yn credu ei fod yn ddigon 'arloesol' o gymharu gydag eraill? Dylai creadigedd ac arloesedd fod yn berthnasol i'ch amgueddfa, eich cyd-destun a'ch cymunedau.
- Sut ydym yn creu gwagleoedd cynhwysol sydd yn hawdd llywio o'u cwmpas? Ydy pobl yn teimlo'n gyfforddus a diogel yma? Sut y gallwn ei wneud i deimlo'n groesawgar i bobl sydd yn dychwelyd ar ben eu hunain ar ôl iddynt gael ymweliad wedi ei hwyluso fel rhan o'n gwaith allgymorth?

Astudiaeth achos: Amgueddfeydd Colchester & Ipswich

Pam fod croesawu agweddau newydd yn sicrhau amrywiaeth oymwelwyr i Amgueddfeydd Colchester + Ipswich

Mae cenhadaeth gan Amgueddfa Colchester & Ipswich i 'greu gwasanaeth amgueddfa sydd yn ffynhonnell o falchder, ysbrydolaeth a hwyl'. Wrth uno 10 mlynedd yn ôl yn 2007, eu nod oedd creu gwasanaeth amgueddfa unedig i'w drysori. Nawr, mae straeon eu casgliadau, yn cynnwys casgliad penodedig o archaeoleg o arwyddocad rhyngwladol, yn cael eu hadrodd drwy ffyrdd newydd o weithio, gan eu gwneud yn fwy perthnasol i gymunedau ehangach ac amrywiol.

O brofiad, roedd Amgueddfeydd Colchester + Ipswich yn gwybod nad oedd amrywiaeth yn fenter byr dymor. Nid yw'n bosib i'w gyfyngu i brosiectau a'i gyflenwi yn unig trwy rolau sydd wedi eu cyllido trwy brosiectau, ac mae angen yn hytrach iddo fod wrth graidd diwylliant y sefydliad. Roedd hyn yn golygu ail feddwl beth y mae cynyddu amrywiaeth yn ei olygu, a chydabod y bydd hyn yn mynd y tu hwnt i gynyddu cynrychiolaeth o grwpiau hunaniaeth gwahanol ar y staff. Mae'n gofyn am ymagwedd fwy holistaidd, hyblygrwydd a bod yn agored i'r safbwyntiau a chanfyddiadau gwahanol sydd gan grwpiau hunaniaeth gwahanol.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

Roedd Amgueddfeydd Colchester & Ipswich yn cydnabod bod yr un hen ffyrdd o wneud pethau yn arwain at yr un hen ganlyniadau. Mae datblygu talent newydd yn cyflwyno agweddau newydd, sydd yn hanfodol i addasu a chyflawni eu cenhadaeth. Galfaneiddiwyd yr ysbrydolaeth i newid trwy 'Yr Amgueddfa Hyfforddi' ('The Training Museum'), rhaglen drawsnewid gweithlu cyffrous a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd hyn yn dadgloi safbwyntiau newydd, yn ogystal â synnwyr newydd o angerdd am sut oeddent yn gallu torri'r mowld, trwy agor i fyny

llwybrau newydd i'r sector amgueddfeydd. Diffiniwyd beth oedd angen ei wneud ganddynt:

- Gwerthfawrogi'r agweddau, mewnwelediadau a safbwyntiau sydd yn dod o leisiau newydd ac amrywiol ar dîm yr amgueddfa a sicrhau bod eu lleisiau a'u barnau yn dylanwadu ar weithredu.
- Canolbwyntio ar sut y gall a sut y mae'r lleisiau amrywiol hyn yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth a nodau'r amgueddfa.
- Ymgrymuso staff drwy roi strwythurau yn eu lle sydd yn galluogi cyfnewid syniadau, annog unigolion i fod yn fentrus a blaengar a chroesawu awgrymiadau adeiladol ar wneud pethau yn wahanol.
- Deall fod safbwyntiau gwahanol yn dod â heriau a bod angen ailystyried patrymau.
- Disgwyl fod pawb yn yr amgueddfa yn hollol gefnogol o ran deall a chyflenwi agenda amrywiaeth y gwasanaethau.
- Adeiladu diwylliant sefydliadol sydd yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a sgiliau pobl a'u cynorthwyo i ddysgu mwy a datblygu.

Mae'r Amgueddfa Hyfforddi yn fenter gwasanaeth-eang a gychwynwyd gan Reolwr Amgueddfeydd Colchester + Ipswich, Bill Seaman. Fel Swyddog Prosiectau yr Amgueddfa, mae Lib Fox yn cynorthwyo'r dasg o ehangu proffil amrywiaeth y sefydliad, gan estyn allan i hyfforddeion a gwirfoddolwyr newydd, ac felly — cynulleidfaoedd newydd. Roedd rhai o staff yr Amgueddfa yn herio'r ymagwedd newydd yn gychwynnol:

'Pam fod angen i ni sicrhau amrywiaeth pan fod gennym gymaint o bobl â sgiliau yn ein gweithlu?'

Roedd newid patrymau sefydledig, fodd bynnag, yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

‘Yn gychwynnol, roedd rhai o’r meysydd newydd o waith yn gwneud staff eraill yn nerfus. Fodd bynnag, daeth egni a brwdfrydedd gyda’n cohort cyntaf o hyfforddeion; roeddent eisiau dysgu a herio. Roedd hyn yn arwain at bobl eraill yn asesu a rhannu profiadau a oedd yn gwneud iddynt deimlo eu bod wedi eu grymuso. Gallent hefyd ddatblygu, gan fod yr hyfforddeion yn dod â gwahanol fathau o brofiadau ac arbenigedd.’

Sut y maent yn cyflawni amrywiaeth

Newid y gweithlu

- Newid proffil y gweithlu trwy ailfeddwl recriwtio: ar gyfer yr hyfforddeiaethau cyflwynwyd strategaeth a chyfundrefnau newydd gan Amgueddfeydd Colchester + Ipswich sydd yn symud i ffwrdd o ffurflenni cais traddodiadol. Yn hytrach nag asesu ymgeiswyr ar setiau penodol o sgiliau, roedd cyfweiliadau fideo yn eu galluogi i rannu beth oeddent yn hoffi am agueddfeydd a beth fyddent yn ei newid. Roedd y sefydliad yn croesawu pobl yn weithredol sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth ac yn derbyn 250 o geisiadau ym mlwyddyn gyntaf yr hyfforddeiaethau.
- Maent yn adeiladu math gwahanol o dîm sydd yn rhoi cyfleoedd i bobl a fydd yn ychwanegu gwerth. Nid oedd angen i ymgeiswyr hyfforddeiaethau gael profiad ymchwilio neu raddau. Yn lle roedd yn bwysig iddynt gael sgiliau cyfathrebu da, syniadau gwahanol a’r dewrder i gwestiynu’r ffordd ‘roedd pethau yn cael eu gwneud.

Cafwyd hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o feysydd i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy.

- Recriwtio hyfforddeion a staff sydd yn cyflwyno sgiliau a chysylltiadau newydd, o wneud ffilmiau am y casgliadau i drefnu digwyddiadau ac arddangosfeydd o wrthrychau. Roedd un enghraifft o hyn yn ymwneud â gwneud cysylltiadau newydd â’r gymuned Tseiniäidd lleol.

- Diwrnodau blasu a rhannu cyfleoedd gyda phartneriaid sydd yn gweithio mewn cyflogaeth ieuencid i wneud pobl ifanc yn ymwybodol o gyfleoedd yn y sector amgueddfeydd.

Cynlluniau a gweithgareddau newydd i ymgysylltu ymwelwyr amrywiol

- Lleihau gweithio seilo drwy greu ffyrdd newydd o ymateb i'r casgliadau. Daeth ag Amgueddfeydd Colchester + Ipswich eu hadrannau dysgu a churadurol at ei gilydd, er mwyn adlewyrchu profiadau a straeon mwy amrywiol.
- Cefnogi ffyrdd newydd o weithio trwy CIMOVATION — cynllun grantiau mewnol sydd yn agored i unrhyw aelod staff. Anogir cydweithwyr i edrych ar y maes y maent yn gweithio ynddo, a dod o hyd i 'nid rhywbeth arall i'w wneud, ond ffordd arall o wneud pethau.'
- Creu cynlluniau amrywiaeth cynulleidfaoedd ar gyfer pob un o'r chwech amgueddfa yn y grwp, gyda phenderfyniadau ar raglennu ar gyfer ymwelwyr amrywiol yn cael eu dylanwadu gan staff a hyfforddeion newydd.
- Mae grwpiau cynghorol yn cael eu sefydlu yn cynnwys porthorion sydd yn llwybrau i gymunedau amrywiol.
- Ateb anghenion cymunedau lleol fel eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth, er enghraifft trwy ddarparu dosbarthiadau EAL, a digwyddiadau i deuluoedd digartref.
- Digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc a grewyd gan yr hyfforddeion, e.e. noson rap a ffair haf â thema heneiddiol. Roedd y ddau ddigwyddiad yn croesawu cynulleidfaoedd newydd a oedd yn mwynhau'r lle a'r sylw a roddwyd iddynt gan yr amgueddfa.
- Sesiynau briffio a gweithdai i'r staff i gyd rannu adborth ymwelwyr a chynnwys timau ehangach i lywio a siapiao cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r canlyniadau ar y cyfan yn werth chweil

- Mae agweddau staff sydd wedi eu hen ymwreiddio wedi pylu, gyda chymorth sesiynau hyfforddi Newid Diwylliant gan ddarparwr allanol yn 2014, gyda sesiynau dilynol yn 2015.
- Mae cyfansoddiad ymwelwyr yn weddol gynrychioladol o ddemograffig y ddwy dref.
- Mae'r sail o wirfoddolwyr wedi cynyddu ac mae'n fwy amrywiol mewn rhai ffyrdd e.e. oedran.
- Mae gweld datblygiad personol yr hyfforddeion wedi bod yn werth chweil, ac nid oedd gan y mwyafrif ohonynt unrhyw brofiad amgueddfa hyfforddeiaethau.
- 'Rhaid i'r ffocws ar amrywiaeth fod yn gyson, er mwyn cynnal y momentwm a pharhau gyda'r newid cyfeiriad o ran meddylfryd ac ymarfer sefydliadol.'

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfeydd Colchester + Ipswich

- Sut ydym yn cydbwysu creu cysylltiadau newydd rhwng casgliadau a chymunedau a chyflenwi ein hagenda gymdeithasol gydag ethos tuag at gynhyrchu incwm sydd yn fwy fel busnes?
- Pwy sydd yn colli allan ar beth 'rydym yn ei wneud?
- Sut y gallwn annog eraill i gydnabod

Astudiaeth achos: Amgueddfeydd Derby

Pam fod datblygu gweledigaeth berswadiol ar y cyd yn bwysig i Amgueddfa Derby

Mae Amgueddfa ac Oriel Derby wrth galon canol y ddinas. Eu gweledigaeth yw i bobl ddarganfod eu lle yn y byd. Un o'u prif atyniadau yw eu casgliad o ddarluniau gan Joseph Wright. Mae Amgueddfeydd Derby yn creu amgueddfa newydd, Y Felin Sidan, fel Amgueddfa Wneud. Mae'n dathlu hanes diwydiannol cyfoethog Derby ac yn edrych ar ymgrymuso gwneithurwyr drwy amgylchedd ysbrydoledig.

Dinas aml-ddiwylliannol yw Derby; mae 20% o'i phoblogaeth yn BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) ac mae Cyfarwyddwr Amgueddfeydd Derby, Tony Butler, yn ymwybodol iawn bod llawer o bobl leol yn teimlo 'nad yw amgueddfeydd iddynt' (mae hyn yn cael ei gadarnhau gan ymchwil gan bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr a wnaed yn 2016). Mae'n ymwybodol bod gan y mwyafrif o amgueddfeydd arferion ac ymddygiadau sydd yn cael eu rhannu yn llai ac yn llai: dyma'r sefyllfa y mae'n bwriadu ei newid.

Fel Sylfaenydd yr Amgueddfa Hapus, mae Tony yn credu mewn capasiti amgueddfeydd i:

'Ail-ffurfio'r berthynas rhwng pobl a gwrthrychau i archwilio straeon pobl trwy eu perthynasau gyda'i gilydd yn ogystal â gyda'u pethau ... Mae amgueddfeydd yn gysylltwyr rhwng pobl, gwrthrychau a'r amgylchedd y maent yn bodoli ynddo a dyma'r berthynas gymhleth y dylent geisio ei phortreadu.'

'Mae'r rhwystrau i gynulleidfaoedd mwy amrywiol, y mae amgueddfeydd ar y cyfan yn methu â'u torri i lawr, yn gymdeithasol a diwylliannol gan amlaf. Mae ein hymchwil lleol wedi dangos fod pobl ag incwm isel neu lai o gymwysterau yn hapus i wario arian ar adloniant, fel mynd i'r sinema, parciau neu barciau thema. Nid ydynt yn dod i amgueddfa gan nad yw hyn yn weithgaredd a

gymeradwyir gan eu grwp cymheiriaid ac nid yw'n cael ei ystyried yn rhywbeth y byddent yn gwneud yn arferol. Byddai'n cymryd blynyddoedd i newid hyn.'

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Meddwl yn ddwys am bwy i ddenu i'r Amgueddfa a sicrhau ei bod yn berthnasol i'w bywydau a'u hanes.
- Creu cyfalaf cymdeithasol ac amrywiaeth gymdeithasol drwy adeiladu rhwydweithiau, cyfeillgarwch, datblygu sgiliau ac ysgogi synnwyr o leoliad a threftadaeth: mae pobl eraill yn cefnogi'r agenda hon drwy gymorth mewn da. Gall gwirfoddoli â chymorth fod yn ffordd wych o gefnogi unigolion agored i niwed fyw yn fwy annibynnol.
- Helpu i bobl ddarganfod eu lle yn y byd a chyfuno dinasyddiaeth leol â dinasyddiaeth fyd-eang.
- Gwrthweithio'r synnwyr o ddieithriad o amgueddfeydd y mae llawer o bobl yn ei deimlo drwy leihau'r 'baich deallusol' sydd yn cyflwyno casgliadau mewn ffyrdd sydd yn cyfyngu sut maent yn rhyngweithio gyda chynulleidfaoedd.
- Mabwysiadu steil o arweinyddiaeth sydd yn agored ac yn gydweithredol fel bod rheolaeth a chyfrifoldeb yn gorwedd â'r tîm: anffurfiol yn hytrach na hierarchaidd. Mae'r tîm i gyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a llesiant.
- Newid y diwylliant sefydliadol, strwythur ac ethos y staff a pheidio â bod yn ymhongar am werth diwylliannol. Mae curadwyr arbenigol gan Amgueddfeydd Derby ond mae disgwyl iddynt fod yn hyblyg ac i gydweithredu â'r cyhoedd. Mae cyd-gynhyrchu yn elfen allweddol yn eu disgrifiadau swydd. Mae'r sefydliad yn cael ei arwain gan brosiectau, gyda thimau traws-ddisgyblaethol yn cynnwys y rheiny mewn dysgu, cynulleidfaoedd a masnachol. Dangos mantais i'r cyhoedd yw popeth.
- Dylunio a chyflenwi rhaglenni gyda'r cyhoedd fel eu bod yn briodol i'w dymuniadau ac anghenion.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Cydnabod er eu bod yn gwneud ymdrech i newid, bod amgueddfeydd yn dal i gael eu ffurfio gan fraint ddeallusol a diwylliannol. ‘Rhaid i’r diwylliant newid a’r cam cyntaf yw enwi’r broblem: mae angen pontio’r bwlch rhwng defnyddwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio amgueddfeydd. Y cam cyntaf yw deall dosbarthiad anghyfartal cyfalaf diwylliannol. Mae hyn yn fater o ddosbarth — a rhaid dechrau yn rhywle.’
- Gwneud yr Amgueddfa yn le cyfforddus ble mae pobl yn teimlo bod hawl ganddynt fod: ‘mae’r pum munud cyntaf yn yr Amgueddfa yn cadarnhau profiad ymwelydd newydd neu dawedog. Felly ‘rydym yn buddsoddi llawer mewn sut y mae ein tîm blaen y ty yn croesawu ymwelwyr.’
- Ymwreiddio prosesau sydd yn agor yr Amgueddfa i fyny i gynulleidfaeod amrywiol, e.e. meddwl am brofiad y gynulleidfa cyn creu’r cynnyrch: rhoi eu hunain ym meddylfryd pobl nad ydynt yn eu hadnabod wrth drefnu arddangosfeydd a gweithgareddau drwy Fapio Empathi: mae hyn wedi gweithio’n dda gyda ffoaduriaid.
- Gweithredu ar drafodaethau ac ymchwil gyda phobl nad ydynt yn defnyddio Amgueddfeydd: e.e. roeddent yn nodi nad oedd yr Amgueddfa yn cyrraedd defnyddwyr Asiaidd. Arweiniodd hyn at arddangosfa ar Gerddoriaeth India Fonheddig. Roedd y dathliad hwn o ddiwylliant Indiaidd yn arwain at gynnydd mewn cynulleidfaeod Asiaidd a ffurfio cysylltiadau newydd.
- Pwysleisio agweddau ac empathi dros gynrychiolaeth symbolaidd. Adlewyrchu diddordebau ehangach pobl yn hytrach na bod yn gyfyngedig oherwydd segmentu neu fodel diffyg â ffocws ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, neu dargedau arbenigol penodol.
- Sicrhau bod cydbwysedd rhwng yr angen i gynhyrchu incwm a chreu cyfalaf diwylliannol a chymdeithasol trwy ddatblygu cynulleidfaeod: maent yn disgrifio’r Amgueddfa fel menter gymdeithasol.
- Gwneud cysylltiadau newydd gyda phobl mewn rhannau o’r ddinas nad ydynt yn ymgysylltu: er enghraifft, drwy gymryd gwrthrychau o’r casgliadau i wahanol fathau o lefydd i weld sut y mae pobl yn rhyngweithio gyda nhw.

- Ymagwedd newydd i hyfforddiant staff yn seiliedig ar sesiynau syniadaeth a labordai prosiect yn canolbwyntio ar brofiad y gynulleidfa.
- Trechu gwrthwynebiad trwy arddangos a chyfathrebu llwyddiant.

Cwestiwn a ofynnir gan Amgueddfeydd Derby

- Sut ydym yn 'dad-ddysgu' yr ymarferion mewn amgueddfeydd sydd yn cyfyngu amrywiaeth cynulleidfaoedd?

Astudiaeth achos: Llyfrgell Menywod Glasgow

Pam fod cyfartaledd, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Lyfrgell Menywod Glasgow (GWL)

Llyfrgell Menywod Glasgow (GWL) yw'r unig amgueddfa achrededig sydd yn benodol ar gyfer hanes menywod yn y DU. Sefydlwyd yr Amgueddfa i ddathlu bywydau a chyflawniadau menywod ac ymddwyn fel catalydd i ddileu'r bwloch rhwng y rhywiau yn yr Alban.

'Gweledigaeth GWL yw byd ble y caiff cyfraniadau hanesyddol, diwylliannol, a gwleidyddol menywod i gymdeithas eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u dathlu yn gyflawn gan bawb.'

O'i gwreiddiau fel sefydliad a oedd yn gwbl wirfoddol, mae GWL wedi ffynnu i fod yn amgueddfa sydd wedi ennill gwobrau ac yn Gasgliad Cydnabyddedig o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn drawiadol, gan nad yw'r amgueddfa wedi colli unrhyw ffocws ar gymunedau ac am fod cydraddoldeb wrth ei gwraidd.

Nid ydym yn meddwl 'sut ydym yn gwneud casgliad yn berthnasol i gymdeithas amrywiol', rydym yn canolbwyntio ar 'greu lle i fenywod ddatblygu cyfalaf cymdeithasol diwylliannol ac economaidd a dod yn weithredol wrth ddysgu am, ac ymwneud â hanes menywod.'

Beth meant yn ei wneud sydd yn arbennig

- Roeddent yn datblygu casgliadau parhaol gyda'r gymuned ac mae eu llyfrgell fenthyg wedi cael ei chyfrannu yn gyflawn gan fenywod o gymysgedd o gefndiroedd amrywiol. Erbyn hyn mae mwy na 20,000 o lyfrau a 30,000 o

eitemau archifol, ac mae'r casgliad wedi cael ei chydabod fel casgliad o arwyddocâd cenedlaethol.

- Mae tua 50% o'r rhaglen flynyddol yn cael ei churadu gan y tîm a 50% gan syniadau a gyflwynir gan gymysgedd amrywiol o bartneriaid. Mae ffurflen ar y wefan i bobl gyflwyno awgrymiadau ar gyfer rhaglenni neu ddigwyddiadau yr hoffent eu cynnal.
- Mae Swyddog Datblygu Prosiectau Menywod BME, Syma Ahmed yn hyrwyddo dysgu gydol oes, celfyddydau a chyfleoedd creadigol i fenywod BME ac yn dathlu llwyddiant a chyflawniadau menywod BME yn Glasgow drwy roi straeon eu bywydau at ei gilydd a'u cadw yn GWL.
- Dechreuwyd prosiect i archwilio hanes menywod yn ymfudo i Glasgow drwy wahodd â menywod i greu modelau o'r tai 'roeddent yn eu gadael. Cynhyrchwyd arddangosfa o fodelau'r menywod ac eitemau arwyddocaol a ddaeth gyda nhw o'u cartrefi ac a fenthycwyd i'r amgueddfa. Dechreuwyd llawer o drafodaeth ac archwilio rhwng diwylliannau gwahanol gan hyn. Ysbrydolwyd y bardd Jackie Kay gymaint gan y prosiect hwn nes iddi ysgrifennu barddoniaeth newydd am straeon y menywod a gyhoeddwyd ac a rannwyd yn eang.
- Mae partneriaethau gyda dylanwadwyr, fel Jackie Kay, a menywod ysbrydoledig eraill fel awduron, gwneuthurwyr ffilmiau, cyfranwyr i gylchgronnau, artistiaid ayb. yn helpu i'r tîm ddod o hyd i ffyrdd creadigol o wneud syniadau yn ystyrlon i bobl heddiw.
- Mae llawer o'u gwaith yn canolbwyntio ar weithio gyda gwirfoddolwyr i ddatgelu hanesion cudd. Er enghraifft, roeddent yn cynorthwyo i fenywod ymchwilio straeon y menywod a oedd yn byw, gweithio a marw yn Ysbyty Fever Belvidere yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd hyn yn eu galluogi i grubo drwy'r archifau, cwrdd â phobl sydd yn cofio'r ysbyty, a chreu darn perfformiad dramatig i ddathlu bywydau'r menywod a ddarganfyddwyd ganddynt.
- Maent yn canolbwyntio ar gynyddu uchelgais a chreu llwybr cyflym i brofiadau diwylliannol ystyrlon. Er enghraifft, yn hytrach na darparu digwyddiadau llythrennedd sylfaenol (sydd yn rhan bwysig o beth y maent yn ei wneud),

maent hefyd yn meddwl am sut y gallent helpu i bobl ysgrifennu drama, neu rannu eu stori.

- Mae llawer o fentrau o fewn GWL sydd yn cynorthwyo gwahanol fenywod ac yn eu galluogi i gael mynediad i'w gwaith e.e. grwp darllen menywod Mwslimaidd, grwp beirniaid ifanc, a chymundod BAME o fenywod creadigol o hyd a lled yr Alban sydd yn cysylltu drwy GWL ac yn helpu i guradu digwyddiadau.
- Maent yn gweithio gyda 80-100 o wirfoddolwyr bob blwyddyn. Ystyrir cynnwys gwirfoddolwyr ar ddechrau pob prosiect, gan y tîm cyfan. Maent yn gofyn wrth bobl beth y maent yn gobeithio cael o wirfoddoli a beth sy'n bwysig iddynt.
- Mae unigolion yn penderfynu eu hunaniaeth eu hunain ac yn gwahodd â phobl i ychwanegu eu safbwyntiau a'u straeon i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol i bobl heddiw.
- Mae GWL mewn ardal sydd o fewn y 5% uchaf o lefelau o amddifadedd yr Alban. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod eu cymuned leol yn teimlo mae eu lle nhw yw hyn. Mae pobl yn galw heibio yn ddi-dâl. Mae llawer o ddigwyddiadau yn costio dim ond £2.
- Maent yn mynd allan i gwrdd â'r bobl y maent yn ceisio eu hymgysylltu mewn llefydd sydd yn ystyrion iddynt e.e. drwy ddarlleniadau barddoniaeth mewn siopau pysgod a sglodion, ac maent yn gwneud teithiau o'r llyfrgell mewn ieithoedd y gymuned.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Mae GWL yn sefydliad a arweinir gan werthoedd. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd hanfodol nad ydynt yn agored i drafodaeth. Maent yn ategu pob agwedd o waith GWL. Maent yn ystyried eu gwerthoedd wrth recriwtio staff, y bwrdd a gwirfoddolwyr ac yn sicrhau bod y barnau a'r yrwymadau yn cael eu rhannu trwy gydol y sefydliad.
- Mae'r tîm, dan arweinyddiaeth Adele a Sue, ond gyda mewnbwn gweithredol gan bawb, wedi datblygu cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) gyda'i gilydd. Mae hyn yn darparu cipolwg seiliedig ar

dystiolaeth o gyfranogaeth a chynnwys gyda GWL ac yn amlygu ble mae'r blaenoriaethau gweithredu. Mae'n amlinellu amcanion, strategaethau, a risgiau i'w monitro.

- Mae pawb yn werthfawr. Lle cynnes a chroesawgar yw GWL. Mae gwirfoddolwyr wedi cael eu hannog i ymuno â'r bwrdd neu dîm y staff dros amser, ac maent wedyn yn cael eu mentora gan aelod eisoes o'r bwrdd i sicrhau y caiff eu llais ei glywed. Mae hyn yn dechrau cartref, o fewn y tîm. Maent yn gofyn wrth bobl beth sydd angen ei newid ac yn agored ac yn ymatebol i'w hatebion.
- Mae dysgu yn barhaus, i bawb: maent yn cynnal sesiwn hyfforddi cynefino a diweddarau o'r enw 'Dyma pwy ydym ni', i rannu ac archwilio eu gwerthoedd — mae staff newydd yn ymuno ag aelodau o'r bwrdd a gwirfoddolwyr yn ystod yr un sesiwn, i ddangos eu bod i gyd yn cael eu gwerthfawrogi ac i annog mewnbwn a rhyngweithio trwy gydol y sefydliad.
- Maent yn ceisio yn gyson i wella, felly maent yn dysgu yn barhaus. Roedd y tîm yn ddiweddar yn ymgymryd â hyfforddiant allanol i'w galluogi i gynllunio sut yr oedd pobl gydag anableddau niferus e.e. byddar a dall, yn gallu darganfod ac ymgysylltu â'u gwaith.
- Mae monitro a gwerthuso yn llywio cynlluniau'r dyfodol. Ymhob digwyddiad a phrosiect maent yn gofyn wrth bobl am gwblhau ffurflen syml i gasglu data e.e. codau post (i fapio amrywiaeth gymdeithasol-economaidd) a nodweddion gwarchodedig. Maent yn gofyn wrth bobl am gofrestru i gadw trac o bobl sydd yn galw heibio yn ddi-dâl. Mae gwaelodlinau o'r ystadegau hyn, gyda rheiny o gymysgedd y staff, bwrdd a gwirfoddolwyr yn hysbysu eu cynllun gweithredu EDI a'u rhaglen ar gyfer y flwyddyn wedyn.
- Maent yn trafod unrhyw sefyllfaoedd anodd sydd yn codi fel tîm ac yn cynnal tri chyfarfod adlewyrchu EDI bob blwyddyn i adolygu targedau ac ystyried beth sydd angen ei newid.
- Maent hefyd yn monitro effaith eu gwaith ar bobl gydag astudiaethau achos yn hysbysu a llywio gweithredu'r dyfodol.

Cwestiynau a ofynnir gan Lyfrgell Menywod Glasgow

- Pwy ydym ni fel sefydliad?
- Beth sydd angen ar bob unigolyn er mwyn cyfranogi yn ein gwaith?
- Sut y gallwn greu lle, a llwybr cyflym i bobl gael profiadau diwylliannol ystyrlon heb ystyried eu cefndir na sut y gall pobl ganfod eu potensial?
- Bydd sydd yn ysgogi [enw] a beth sydd yn eu hofni?

Astudiaeth achos: Amgueddfa Cambridge

Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Amgueddfa Cambridge

Mae Amgueddfa Cambridge yn amgueddfa fach ac annibynnol gyda chalon fawr. Dwy flynedd yn ôl, penodwyd Cyfarwyddwr newydd, Lorna O'Brien. Mae gan Lorna gefndir mewn dysgu a dehongli ac ymrwymiad dwfn i gynhwysiant cymdeithasol. Dechreuodd drwy recriwtio staff newydd i arwain prosiect allweddol yr oedd yr Amgueddfa wedi derbyn cyllid ar ei gyfer gan Gyngor Dinas Cambridge — 'Capturing Cambridge'. Roedd y prosiect hwn, a oedd yn darganfod a rhannu straeon am hanes cymdeithasol ar draws y rhanbarth, yn ysgogi dechrau ffocws newydd ar beth y gall amgueddfa fach a lleol fod:

'Rydym yn bodoli fel lle i bobl ddarganfod a dathlu straeon amrywiol Cambridge, yr ardal o'i chwmpas a'i phobl.'

Mewn dinas sydd yn cael ei domineiddio gan brifysgol a adnabyddir yn rhyngwladol, mae'n rhwydd i wneud tybiaethau am Cambridge.

Tra bod gan lawer o'r boblogaeth lefelau uchel o addysg ac incwm, nid dyma yw'r ddarlun gyflawn. Fel unrhyw ddinas, mae pocedi o amddifadaeth, ac mae llawer o bobl a chymunedau a anghofir yn rhwydd yn bodoli ochr yn ochr â'r stereoteip. Mae Amgueddfa Cambridge felly yn ceisio darparu llais i bobl leol, gan gysylltu cymysgedd amrywiol o bobl ar draws Cambridge a Cambridgeshire, a'u galluogi i ddweud eu straeon eu hunain:

'Dwi ddim yn ddiwerth ... wnes i greu celf heddiw' (adborth grymus gan gyfranogydd lleol).

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Mae'r Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Hilary Cox-Condron, yn gweithio gydag ychydig iawn o adnoddau, ond mae'n llwyddo i gyrraedd ac ymgysylltu nifer anferth o wahanol bobl a grwpiau drwy gael ymagwedd gadarnhaol, gweithredol ac arbrofol. Mae'n dod o hyd i grwpiau y mae'n dymuno gweithio gyda nhw, nodi beth sydd yn berthnasol iddynt, ac yn troi syniadau yn gweithredu er mwyn dangos ei bod wedi gwrandao ac ymateb.
- Mae'r tîm yn sefydlu cyfeillgarwch, partneriaethau a phrosiectau gyda phobl ar draws Cambridge. Mae enghreifftiau yn cynnwys:
 - Gweithio gyda grwpiau a thrigolion lleol i ddweud hanes LGBT Cambridge trwy straeon personol ac archwilio llefydd diogel ac anniogel ar draws y ddinas.
 - Bod yn rhan o brosiect aml-bartner yn gweithio gyda phlant sydd yn derbyn cyllid premiwm i ddisgyblion gan ymsefydlu celfyddydau a diwylliant i'w profiad i wella bywydau.
 - Shared Heritage, Shared Humanity: prosiect parhaus sydd yn gweithio yn agos â grwpiau o ymfudwyr a ffoaduriaid i gysylltu drwy gasgliad yr Amgueddfa.
 - Sefydlu arddangosfeydd codi a chaffis atgofion mewn digwyddiadau lleol, gwyliau a chartrefi hen bobl i gyrraedd grwpiau penodol o bobl nad ydynt o reidrwydd yn meddwl mai rhywbeth sy'n apelio atynt yw amgueddfa.
 - Penodi golygyddion o'r gymuned ar gyfer eu gwefan.
 - Agor i fyny yr ystafell lawr grisiau fel lle cymunedol galw heibio di-dâl yn yr Amgueddfa bob Dydd Gwener.
 - Cydweithredu parhaus gyda Rowan — sefydliad celfyddydol ar gyfer oedolion gydag anawsterau dysgu — o weithdai celf o fewn yr Amgueddfa, cefnogi eu gwaith celf trwy eu siop, cynnal arddangosfeydd a gwneud gwaith partner ar eu prosiect treftadaeth.
 - Pan gyflwynwyd Hilary gan Gadeirydd Prifysgol Cambridge i wneud araith yn ddiweddar, y disgrifiad a ddefnyddiwyd ganddo ar ei chyfer oedd 'glud y gymuned'.

- Mae'r rhaglen ymgysylltu cymunedol yn datblygu o gwmpas dyddiadau ymwybyddiaeth genedlaethol. Mae hyn yn darparu ffordd syml o sicrhau eu bod yn ymwneud â chymysgedd eang ac amrywiol o bynciau a phobl, heb orfod treulio llawer o amser yn cynllunio. Hefyd mae'n eu galluogi i bigo i fyny trafodaethau sydd yn digwydd eisoes a chynhyrchu straeon cysylltiadau cyhoeddus i gyflawni cymaint â phosib gyda'u hamser marchnata a chyllid cyfyngedig.
- Mae'r tîm yn datblygu rhaglen sydd yn dweud yn glir ei bod 'i chi'. Maent yn canolbwyntio ar 'agor drysau' a 'darparu lle.' Er mai dim ond lle cyfyngedig sydd ganddynt i gasglu'n weithredol (mae'r amgueddfa wedi'i lleoli mewn llety coetsh ffrâm bren 17eg Ganrif), maent wedi dod o hyd i ffordd arloesol o greu lle ar gyfer cymysgedd newidiol o bobl a gwrthrychau. Crewyd 'cabinet cymunedol' ganddynt, lle sydd yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd gan wahanol unigolion neu grwpiau i'w galluogi i rannu pethau sydd yn eu hysbrydoli o gasgliad yr amgueddfa, a dod ag eitemau arwyddocaol neu gasgliadau eu hunain i mewn. Mae angen lefelau gwahanol o gymorth ar grwpiau gwahanol wrth wneud hyn ond maent bob tro yn helpu i hwyluso trafodaeth, gan ddefnyddio eitemau o'r cabinet cymunedol i ddechrau trafod a chreu cysylltiadau rhwng grwpiau amrywiol o bobl.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Daeth Lorna â meddylfryd newydd i'r amgueddfa. Dangosodd dewrder a gweledigaeth wrth benodi tîm o bobl nad ydynt o reidrwydd wedi dod i fyny trwy'r llwybrau amgueddfa traddodiadol, ond sydd â'r sgiliau, cysylltiadau lleol, chwilfrydedd, ac angerdd i alluogi i bobl eraill ddweud eu straeon.

'Rhaid i ni recriwtio'r bobl iawn, sydd yn gallu gwneud y cysylltiadau iawn. Pobl sydd yn gallu mynd i gymunedau gwahanol a chael eu parchu a deall y sensitifeddu sydd yn perthyn i hyn.'

- Disgrifiwyd gweledigaeth yr amgueddfa sydd yn canolbwyntio ar gynhwysiant cymunedol gan y staff fel y rheswm craidd am wneud cais i weithio yna. Mae

pobl o fewn y tîm bach yn gwneud y gwaith hwn 'oherwydd y llawenydd.' Mae'r cytundeb personol hwn i'r weledigaeth, a'r angerdd ac ymrwymiad unigol i'w ddod yn fyw wedi bod yn allweddol i wneud i hyn weithio. Nid yw ffocws ar y gymuned yn werth ar bapur yn unig, maent wir yn ei gredu.

- Maent yn canolbwyntio ar fynd allan a gwneud cysylltiadau. Maent yn ceisio dod yn rhan o'r gymuned, gan ddod i adnabod llawer o bobl heb agenda o reidrwydd. Cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, cyfranogi mewn ffeiriau, gwyliau a marchnadoedd lleol, postio ar grwpiau cymunedol Facebook a sefydlir gan bobl eraill, mynd â blychau o bethau o'r casgliad at grwpiau nad ydynt yn gallu ymweld â'r amgueddfa yn gorfforol er mwyn ysgogi atgofion a thrafodaethau ayb. *'Dwi'n ymwneud â llawer o ddigwyddiadau celfyddydau a chyfiawnder cymdeithasol. Mae pobl yn gwybod fy mod yn ddidwyll.'*
- Maent yn 'gwrando'n weithredol' drwy ddod o hyd i'r gymuned y maent yn ceisio gweithio gyda nhw ac yn siarad â nhw i ddarganfod beth yw eu diddordebau. Gellir gwneud hyn yn anffurfiol, efallai trwy 'weithdai atgofion' neu drwy wahodd pobl i gerdded o gwmpas yr amgueddfa gyda nhw a dweud wrthynt beth sydd angen ei newid. Gellir gwneud hyn mewn ffyrdd mwy ffurfiol hefyd fel cymryd rhan mewn grwpiau llywio dan arweinyddiaeth sefydliadau partner.
- Wedyn maent yn ystyried sut i gysylltu diddordebau a phrofiadau pobl gyda'u casgliad a datblygu mentrau a digwyddiadau i ddod â'r ddau at ei gilydd. Mae creadigedd a dychymyg yn allweddol.
- Mae Amgueddfa Cambridge yn canolbwyntio ar bobl. Maent yn disgrifio eu hunain fel 'cael eu harwain gan breswylwyr'. Nid ydynt byth yn tybio eu bod yn gwybod yr ateb am sut i ymgysylltu rhywun orau, 'mae'r atebion yn y gymuned.' Mae pobl yn cael eu gwahodd i gael te a chacen a chwrdd â'r tîm. 'Mae pobl yn dod i'n hadnabod yn bersonol. 'Rydym yn hoffi pobl. 'Rydym yn hoffi cael hwyl.'
- Fel amgueddfa fach gydag amser a chyllid cyfyngedig maent bob amser eisiau gwneud yn fwy na sydd yn gorfforol bosib! Maent felly yn meddwl am sut y gallent gysylltu pobl gyda'i gilydd a'u hannog i greu prosiectau — gall yr amgueddfa gynnal y canlyniad terfynol, neu gallai ymddwyn yn syml fel brocer

y berthynas. Maent yn gweld eu hunain fel 'hwyluswyr', maent yn 'le diogel' i pobl leol ei ddefnyddio a theimlo'n gartrefol.

- Mae Amgueddfa Cambridge yn codi ffioedd mynediad. Felly i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb mae ganddynt gynllun credydau amser, yn cynnig mynediad di-dâl i grwpiau / unigolion penodol, yn darparu cyfleoedd galw heibio, a digwyddiadau min nos di-dâl.

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfa Cambridge

- Pwy sydd yn dweud y stori? Beth y gallwn ei wneud i alluogi [ychwanegwch enw / grwp] i rannu eu stori?
- Sut y gallwn newid canfyddiadau pobl o beth yw 'amgueddfa' drwy ddefnyddio'r synhwyrâu i gyd — cerddoriaeth, arogl, cyffwrdd (nid gweld yn unig)?
- Pwy yn ein hardal leol y gallwn wneud ffrindiau gyda nhw?
- Beth sydd angen i ni ei ofyn er mwyn darganfod sut y gallwn fod yn fwy perthnasol i (ychwanegwch enw / grwp)?
- Sut y gallwn agor drysau a chreu lle hwyl a gwahanol ble y gall cymysgedd amrywiol o bobl deimlo yn gartrefol a chyfforddus, a sydd yn adlewyrchu pwy ydynt?
- Sut y gallwn helpu pobl i wneud y lle hwn yn gartrefol iddynt?

Astudiaeth achos: Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML)

Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i NML

‘Rydym ni eisiau ail-ganolbwyntio’r ffordd y caiff hanes ei bortreadu i ffwrdd o’r pwysig a’r da yn unig a thuag at leisiau’r mwyafrifoedd’

Mae Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, yr unig gwasanaeth amgueddfa cenedlaethol yn Lloegr sydd wedi’i sefydlu yn gyfan y tu allan i Lundain, yn cynnwys saith amgueddfa, Amgueddfa Lerpwl, Amgueddfa’r Byd, Amgueddfa Forol Glannau Mersi, Amgueddfa Gaethwasiaeth Ryngwladol, Oriel Gelf Walker, Oriel Gelf Lady Lever a Sudley House. Dan arweinyddiaeth yr adfocad hawliau dynol cydnabyddedig David Fleming, mae amrywiaeth wedi’i hymsefydlu yn gadarn yn eu Gweledigaeth:

‘I fod yn enghraifft bennaf y byd o wasanaeth amgueddfa cynhwysol’

Yn unol â’u ffocws ar wneud wir gwahaniaeth, mae NML yn mesur a rhannu eu heffeithiau a’u methodoleg yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Yn 2017 adroddwyd bod niferoedd eu hymwelwyr wedi pedwaru ers 2000 a’u bod yn darparu cyfraniad blynyddol i’r economi leol o £53m a mwy na 1,200 o swyddi. Yn 2015/16 o’r 2.8 miliwn o ymwelwyr, roedd 28% yn dod o’r categorïau dan anfantais NS-SEC 5-8.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

‘Mae amgueddfeydd yn arbenigo mewn cofnodi a gofalu am atgofion pobl’

- Mae eu prosiect enwog ‘House of Memories’ a gyfeiriwyd ato yn Her y Prif Weinidog ar Ddementia, wedi ymgysylltu mwy na 11,000 o weithwyr iechyd, tai a gofal cymdeithasol hyd yn hyn. Gan greu swm amcangyfrifedig o £12.6m mewn gwerth cymdeithasol, mae’r prosiect erbyn hyn yn fodel a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn fuan yn rhyngwladol, a gefnogir gan yr Adran Iechyd a

phartneriaid iechyd cenedlaethol strategol eraill. Mae'r rhaglen yn cysylltu gofalwyr gydag amrywiaeth o adnoddau yn cynnwys gwrthrychau, gweithdai ac ap — sydd i gyd yn cynorthwyo cysylltiad â'r person a ofalir amdano/amdani. Maent yn rhoi sylw i fanylder: mae gwahaniaethau mewn atgofion o ran diwylliant, daearyddiaeth ac oedran i gyd yn cael eu hystyried. Yn wreiddiol roedd hyn yn fodel gweithlu ond mae'r ffocws erbyn hyn wedi symud i ofalwyr yn y teulu. Mae'r prosiect hefyd wedi dylanwadu eu hymagweddau i farchnata i gynulleidfaedd hyn ac wedi creu ffrydau newydd o incwm.

'Nid ydym yn siarad amdano yn unig, 'rydym yn gweithredu. Ond 'rydym yn ystyried popeth yn ofalus cyn ei gyhoeddi'

- Mae NML yn disgrifio'i hun fel 'gwasanaeth ymgyrchu amgueddfa'. Nid yn unig ydynt yn eirioli yn rheolaidd dros faterion y bydd llawer yn eu hystyried yn sensitif neu yn ddadleuol, ond maent yn achosi newid go iawn yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae dwy yn unig o'r enghreifftiau anrywiol yn cynnwys:
 - Eu hymgyrch lwyddiannus i atal siopau yn agos at yr Amgueddfa Gaethwasiaeth Ryngwladol yn yr Albert Docks rhag werthu 'golliwogs'.
 - Creu prosiect treftadaeth Draws arloesol gyda grwp lleol Homotopia, am April Ashley a anwyd yn Lerpwl, a fynychwyd gan 930,000 o ymwelwyr. Croesawir y dadleuon a thrafodaethau sydd yn perthyn, 'Mae'n heriol ond nid ydym yn cuddio rhag hyn'.
- Maent hefyd wedi sefydlu nifer o rwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn arwain at newid, fel Happy Older People (HOP) a'r Social Justice Alliance for Museums (SJAM).
- NML yw'r amgueddfa gyntaf i ddod yn ganolfan adrodd trydydd parti: lle diogel ble y gall unigolion adrodd troseddau casineb a galw'r llinell gymorth genedlaethol. Mae ysgolion hefyd yn dod at yr NML yn rheolaidd i gyfranogi yn

eu cynnig addysg a sefydlir ar faterion, gan archwilio themâu o gwmpas hunaniaeth, hawliau dynol ac ymfudo.

Sut y maent yn cyflawni hyn

‘Deall eich cymuned leol, os ydych yn lais unigol, ni fyddwch yn mynd yn bell iawn’

- Mae NML yn edrych yn barhaol am bartneriaethau strategol a ffrydau incwm newydd, gan feddwl yn strategol ac yn arbrofol. Maent yn chwilio'n weithredol am bartneriaid newydd, gan gymharu'r haenau niferus o seilwaith cymdeithasol a gwladwriaethol, o'r DCMS i ddylanwadwyr cymunedol, i haenau winwnsyn. Eu nod yw cysylltu go iawn a rhithgysylltu ar bob lefel drwy 'rwydweithio anferthol' ac maent yn rhan o fforymau niferus a grwpiau llywio fel Dementia Action Alliance.

‘Nid ydym eisiau i amgueddfeydd fod yn gynhwysol am eu bod yn gorfod gwneud hyn, ond oherwydd eu bod eisiau gwneud hyn’

- Caiff partneriaethau cadarnhaol eu ffurfio u tu fewn i'r sefydliad hefyd fel y Gweithgor Amrywiaeth, tîm traws-adrannol sydd yn edrych ar sut i fynd i'r afael â ac ymateb i faterion allweddol a grwp staff BME a ffurfiwyd oherwydd yr angen i gynorthwyo staff yn ystod amser heriol yn ystod datblygiad yr Amgueddfa Gaethwasiaeth Rynglwadol.
- Yn unol â'r gred fod 'amgueddfeydd yma er budd ymwelwyr', yw'r safbwynt bod, 'Y stori yn dod yn gyntaf'. Maent yn sicrhau bod cynnwys yn berthnasol a hygyrch, er enghraifft, crewyd Amgueddfa Lerpwl sydd yn boblogaidd iawn, drwy ymgynghori gyda dros 10,000 o bobl leol — yn cynnwys plant a grwpiau mynediad anabledd — â'r ffocws yn bobl bob-dydd, amrywiaeth y ddinas a'i harwyddocâd byd-eang.

- Mae'r cynnwys yn perthyn i amrywiaeth o bynciau fel symudiad y menywod, undebau llafur, chwaraeon a hanes LGBT a Gwyddelig. Mae'r amgueddfa hefyd yn cynnwys Little Liverpool, oriel sydd wedi'i dylunio'n arbennig ar gyfer plant o dan chwech oed. Mae niferoedd o ymwelwyr incwm isel yn dal i gynyddu yma.
- Eu nod yw ymgysylltu gyda phob ysgol leol a dros y deng mlynedd ddiwethaf mae'r nifer o blant ysgol sydd yn ymweld â NML wedi cynyddu o 77%. Mewn dalgylch ble y gall amddifadedd cymdeithasol ymestyn o genhedlaeth i genhedlaeth, maent yn sicrhau eu bod yn ymchwilio a thargedu ysgolion yn weithredol gyda phremiwm disgyblion uchel: ysgolion ble, er enghraifft, mae'r niferoedd o brydau ysgol am ddim neu geiswyr lloches yn uchel, â'r nod o 'bontio'r bwlch diwylliannol' drwy waith gydag ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r tebyg.
- Mae cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaeth wedi cynnwys y rhaglen Brentisiaeth Greadigol sydd yn targedu oedolion ifanc o grwpiau economaidd gymdeithasol a oedd yn dangos brwdfrydedd a dawn heb angen addysg lefel gradd.
- Yn olaf, maent yn credu'n gryf fod mynediad di-dâl yn yrrwr mawr i fod yn wasanaeth amgueddfa cynhwysol ac amrywiol ac mae hyn yn tanlinellu eu hethos, cenhadaeth ac ymagwedd gyfan fel sefydliad.

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl

- Sut y gall NML wneud gwahaniaeth fesuradwy i'r gymuned hon?
- Pa stori y mae'r gymuned â'r diddordeb a'r buddsoddiant mwyaf ynddi?
- Beth yw'r anghenion strategol lleol a ble fydd ein partneriaeth yn helpu?
- Ydy ein staff yn teimlo eu bod yn gorfod neu eu bod eisiau?

Astudiaeth achos: Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon (NMNI)

Astudiaeth achos: Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon (NMNI)

Mae gan Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon ddegawdau o arbenigedd mewn adeiladu perthynasau sydd yn gwneud gwahaniaeth barhaus. Maent wedi eu lleoli dros dri safle awyr agored — Amgueddfa Werin a Thrafnidaeth Ulster, Amgueddfa Ulster a Pharc Gwerin Americanaidd Ulster — a'u cred cadarn yw 'bod gan bawb hawl absoliwt i fuddio o amgueddfeydd' ac maent yn gweithio'n galed i wneud y mynediad hwnnw yn realiti i bawb.

Mae effaith economaidd a chymdeithasol wedi eu ymsefydlu yn eu strategaeth gorfforaethol: mae ganddynt ymrwymiad cryf i daclo tlodi ac eithrio cymdeithasol, gan ddefnyddio codi arian ystyriol, rhaglennu cymunedol a gwaith allanol wedi'i dargedu er mwyn datblygu mwy o fynychwyr tro cyntaf, proffil cynulleidfa mwy cynrychiadol ac yn y pendraw, dyfodol cadarnhaol i'w rannu gan bawb.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- 'Archwilio, Ymgysylltu, Mwynhau'. Pan ail-agorwyd yr Amgueddfa yn 2009 gyda phwyslais ar ddarparu profiad ymarferol o gelf rhyngwladol, hanes a gwyddorau naturiol, cynyddodd y canran o fynychwyr C2DE o 23% i 46%, canlyniad o dair blynedd o waith agos gyda chymunedau lleol.
- Am y pum mlynedd ddiwethaf, maent wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Addysg ac Urban Villages, (Menter Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sydd yn datblygu meysydd penodol sydd wedi cael hanes o amddifadedd a thensiwn cymunedol). Mae amrywiaeth eang o brosiectau Positive Change NMNI yn cynnwys, ymgysylltu bechgyn yn eu harddegau yn y casgliad trafndiaeth (yn cynnwys profiad ymarferol cyffrous o gar DeLorean a

phrofiad go iawn o hedfan mewn awyren) a chymryd celf a gwrthrychau allan i grwpiau yn y gymuned a llyfrgelloedd.

- Mae 'Positive Outcomes for Families and Schools', eu rhaglen ymgysylltu rhieni plant ysgol gynradd sydd wedi ennill gwobrau wedi cyflenwi 6,000 o bwyntiau ymgysylltu dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar drwy weithgareddau sydd yn seiliedig ar lythrennedd a rhifedd gyda chymorth un o 'drigolion' yr amgueddfa Berkeley Bear. Yn 2016/17, cymerodd 1,800 o rieni a phlant ran o'r 25% uchaf o'r ardaloedd mwyaf amddifad yng Ngo gledd Iwerddon.
- 'Mae cyrraedd pob rhan o'r gymdeithas yn bosibl trwy ysgolion'. Mae'r rhaglen 'Craft in Mind' yn galluogi i rieni o ysgolion yn y ddinas ymgysylltu mewn crefftau a sgiliau traddodiadol fel gwneud rygiau o glytiau a brodwaith. Mae'r rhaglen wedi gwella lles meddwl, hunan-barch a hyder cymaint nes bod llawer o'r cyfranogwyr erbyn hyn wedi dod yn wirfoddolwyr sydd wedi ennill gwobrau.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- 'Adnabod y bobl sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth'. Maent yn dewis partneriaid yn ofalus a chanolbwyntio ar ddatblygu perthynasau hir-dymor da drwy adeiladu ymddiriedaeth, gwerthfawrogi sgiliau a phrofiad eu partneriaid yn ddidwyll a sicrhau bod y bartneriaeth yn fuddiol i'r ddau. Roedd 'Live and Learn' yn rhaglen chwe blynedd a gyllidwyd gan y Loteri Fawr mewn partneriaeth ag Age Concern ac Age NI gan ddarparu dros 20,000 o gyfleoedd dysgu i bobl hyn na fydd fel arfer yn ymweld ag amgueddfa, gyda'r dysgu erbyn hyn wedi'i ymwreiddio yn arferion pob dydd yr amgueddfa. Roedd 'Treasure House', rhaglen arall a alluogwyd gan y Loteri Fawr yn cael ei chyflenwi dros bum mlynedd gyda Clanmill Housing Association i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol a dysgu i bobl hyn.
- Mae sgiliau gan NMNI o ran meddwl yn greadigol am godi arian, er enghraifft helpu sefydliadau llai i ymgeisio ar gyfer cronfeydd Awards for All wedi arwain at incwm ychwanegol o £60k. Nhw yw un o'r nifer fach o amgueddfeydd yn y

DU sydd yn derbyn cyllid gan y Loteri Fawr, sydd erbyn hyn wedi eu cynorthwyo am gyfanswm cronol o 14 blynedd.

- Maent yn defnyddio dull gweithredu strategol, oportiwnistaidd a dyfalbarhaol ac maent yn gwneud eu gwaith cartref. Er enghraifft ar ôl edrych ar ystadegau NISRA targedwyd eu hadnoddau addysg i'r 25% uchaf o ardaledd o amddifadedd.
- Maent yn gwneud 'sganio amgylcheddol' er mwyn deall y polisïau seilweithiol amrywiol, gan nodi rhwydweithiau, chwaraewyr ac eiriolwyr allweddol ac edrych am le y gall yr amgueddfa fod yn adnodd a chael ei helpu hefyd trwy gymeradwyaethau, cyllid a phartneriaethau.
- Maent yn gwneud y gorau o gyfleoedd i adeiladu perthynasau a phroffil newydd drwy roi amser ac ymdrech i ddogfennu eu prosiectau yn dda a hyrwyddo eu llwyddiannau. Yn gychwynol cafodd hyn ei wneud drwy PDFs syml a grewyd yn fewnol i'w hanfon allan i'w rhestr bostio, a hyd yn oed eu dosbarthu mewn cyfarfodydd llywodraethol, ac mae'r rhain erbyn hyn wedi symud ymlaen i fideos a gynhyrchir yn broffesiynol. Maent hefyd yn gwneud amser i geisio am (ac ennill!) gwobrau.
- Maent yn meddwl am fynd i'r afael â rhwystrau ar bob lefel, er enghraifft drwy gynnig trafnidiaeth di-dâl a lletygarwch ar gyfer grwpiau wedi eu targedu, tocynnau teulu am ddim ar gyfer grwpiau penodol a chymhorthdal ar gyfer athrawon i'w galluogi i gymryd diwrnodau i ffwrdd o'r ysgol. Maent hefyd yn ystyried yn ofalus pa aelodau o staff a fydd yn iawn i weithio gyda grwpiau gwahanol ac roedd eu Menter Ymgysylltu Cymunedol a ariannwyd gan yr HLF yn galluogi hyfforddiant i chwech aelod o staff mewn ymgysylltu cymunedol. O ganlyniad i hyn, mae diddordeb staff curadurol mewn ymgysylltiad cyhoeddus yn cynyddu ac maent yn mwynhau rhannu eu gwybodaeth.

Cwestiynau a ofynnir gan Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

- Pa sectorau eraill a fydd angen ein hadnoddau er gyfer gwaith adeiladu cymunedol a lles?

- Sut y gallwn helpu i'n partneriaid prosiect gael y canlyniadau y maent yn eu dymuno?
- Ym mha ffyrdd eraill y gallwn ddod o hyd i'r cyllid sydd angen er mwyn i ni wneud gwahaniaeth?
- Pa rwystrau i ymweld ydy pobl mewn ardaloedd o amddifadedd yn eu wynebu, a sut y gallwn mynd i'r afael â nhw a'u datrys ar bob cam o'r ffordd?

Astudiaeth achos: V&A

Datblygwyd yr astudiaeth achos gyda gwirfoddolwr ifanc sydd ar adeg gynnar yn ei yrfa. Awgrymwyd ef ar gyfer y prosiect AIM gan y V&A ar sail ei ymrwymiad dwfn i agor i fyny yr Amgueddfa i gynulleidfaoedd amrywiol ac fel cyfle i archwilio'r materion yn ddwys sydd o bwys iddo. Mae'r astudiaeth achos yn cynrychioli perspectif o sut y mae rhywun ar adeg hon ei yrfa yn gweld amrywiaeth a chynhwysiant mewn sefydliad mawr.

Pam fod 'tywynnu'r tu fewn tu allan' trwy weithredu ar ddatganiadau gwerth ystyrion yn bwysig i'r V&A?

Fel amgueddfa pennaf y byd o gelf, dylunio a pherfformiad, nod strategol y V&A yw i fod yn 'lyfr gyda'i dudalennau bob amser ar agor.'

Ei gweledigaeth yw gwneud yr Amgueddfa yn bwysicach i fwy o bobl a darparu ei hymwelwyr i gyd gyda phrofiad o'r ansawdd gorau a'r mynediad gorau posibl i'w chasgliadau.

Ei nod yw adnabod a thynnu i ffwrdd y rhwystrau y mae pobl o bob cefndir yn gallu eu hwynebu wrth gael mynediad i'w casgliadau a gwasanaethau, ac i integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i bopeth y mae'n ei gwneud fel bod pob agwedd o'r amgueddfa — proffil staff, casgliadau, cynulleidfaoedd, rhaglenni a digwyddiadau — yn adlewyrchu amrywiaeth gymdeithasol y 21ain Ganrif.

Mae'r teitl Victoria & Albert hefyd yn arwain rhai cynulleidfaoedd at feddwl bod yr Amgueddfa hon am Frenhines Victoria neu bod ei chasgliadau o wrthrychau Prydeinig yn unig. Mae materion eraill: er enghraifft, nid oes unrhyw rai o ugain trysor mwyaf yr Amgueddfa wedi eu gwneud gan fenyw; mae'r gynulleidfa graidd yn

tueddu i fod yn fenywod cyfoethog canol oed, ac mae hyn yn arwain at greu argraff ei bod yn 'snobyddlyd'.

Mae Ruben Salgado Perez, Cynorthwy-ydd Oriel, yn Eiriolwr Amrywiaeth Gwirfoddolwyr ac yn Dywysydd LGBTQ, ac mae'n frwd i fod yn Arloeswr yn y rhaglen hon gan ei fod eisiau chwarae rhan mewn sut y mae'r Amgueddfa yn datblygu'r profiad i ymwelwyr ar gyfer cynulleidfaoedd mwy amrywiol.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Amgueddfa 'tocyn poeth' drwy arddangosfeydd dewr dros dro sydd yn gwneud i bobl weld eu casgliadau mewn goleuni gwahanol: mae'r rhain yn cael effaith anferth ar niferoedd a phroffil cynulleidfaoedd.
- Rhennir ysgoloriaeth benigamp drwy'r rhaglen gyhoeddus.
- Amrywio ei chasgliadau — drwy gyflwyno pynciau fel pensaernïaeth a digidol.
- Rhoi ymwelwyr â phob math o hunaniaeth wrth galon y profiad.
- Peidio â dweud wrth bobl beth i beidio â gwneud ond rhoi cymorth ac ymgysylltu.
- Dysgu o atyniadau masnachol sydd yn well o ran cyflwyno 'wyneb cyhoeddus': mae amgueddfeydd yn gorfod symud gan fod y cyhoedd yn 'codi'r bar.'

Sut y maent yn cyflawni hyn

Maent yn dechrau drwy gydnabod y rhwystrau sydd angen eu datrys , er enghraifft:

- Ofn o fynd dros drothwy drws adeilad crand ac anferth sydd yn cael ei weld fel rhywle i 'bobl posh'.
- Roedd pobl ifanc yn ei gweld fel 'amgueddfa i hen bobl' — nid oedd yn 'le cwl i fod' ac nid oeddent eisiau cyfaddef i'w ffrindiau eu bod wedi ymweld.
- Mae llawer o'r casgliadau gan artistiaid a adnabyddir yn unig gan arbenigwyr: pan fod rhieni yn mynd â'u plant at amgueddfa, mae'n dda os ydynt yn gallu ateb eu cwestiynau: 'sut fyddaf yn egluro hyn i fy mhlant?'

- Blaenoriaeth Marchnata yw'r rhaglen â thâl, felly mae'n anodd cael sylw ar gyfer y digwyddiadau di-dâl sydd â'r targed o ehangu amrywiaeth.
- Mae rhai cynulleidfaoedd yn cael eu drysu gan enw'r Amgueddfa a beth ydyw.
- Gall arwyddion a chyfarwyddion yn yr Amgueddfa ddrysu cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol.
- Ail-feddwl brand er mwyn datrys safbwyntiau sydd yn dweud 'nid yw'r amgueddfa hon i mi'.

Ac yna:

- Canolbwyntio ar 'beth y mae cymuned yn ei meddwl i'r V&A — nid oes un dull gweithredu a rhaid i'r Amgueddfa fod yn sensitif i anghenion pawb sydd yn dod trwy ei drysau: mae llawer o ewyllys da i'w sianelu.'
- Polisiau a chynlluniau clir ar gyfer amrywio cynulleidfaoedd, wedi eu cynorthwyo gan lefelau realistig o fuddsoddiad, adnoddau a hyfforddiant: y cam nesaf yw cynllun gweithredu amrywiaeth.
- Symud o fod yn adrannol iawn i weithgorau traws-adrannol fel bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu edrych ar syniadau newydd am ryngweithio gyda chynulleidfaoedd; trefnu arddangosfeydd a phrosiectau (e.e. cyflwynwyd hyfforddiant gan y grwp LGBTQ ar gyfer staff blaen y ty ar osgoi 'labelu pobl') ac mae mwy o staff yn cyfranogi mewn digwyddiadau fel Lates.
- Ail-labelu'r casgliad cyflawn i'w wneud yn fwy cynhwysol: symud y tu hwnt i'r naratif blaenaf i ddweud straeon y gwrthrychau o safbwyntiau gwahanol mewn ffordd syml.
- Buddsoddi mewn grwpiau blaenoriaeth trwy gyfleoedd a phrosiectau: mae llawer yn canolbwyntio ar greu parch i ddiwylliannau pobl eraill. Yn aml, arweinir penderfyniadau dros ba gynulleidfaoedd i'w blaenoriaethu gan gyllido ac mae gweithgaredd ar hyn o bryd yn cael ei gyfeirio tuag at Ddwyrain Llundain, yn cynnwys ffoaduriaid; cartrefi gofal; grwpiau iechyd meddwl; troseddwr; teuluoedd ac oedolion mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Pwysleisio'r pwysigrwydd o adeiladu casgliadau hir dymor ymhob prosiect trwy bartneriaethau cymunedol.

- Gweithio gyda chwmnïau arbenigol fel Theatr Chickenshed sydd yn dathlu amrywiaeth ac yn ysbrydoli newid i ddatblygu rhaglenni naid teuluol.
- Peidio a gwneud tybiaethau am ba gynulleidfaeodd a fydd â diddordeb ym mha bynciau: e.e. ni fydd pobl o Siapan o reidrwydd yn ymweld ag arddangosfa am Siapan.
- Pan fod ymwelwyr tro cyntaf yn dod i'r Amgueddfa, maent yn sicrhau eu bod yn gweld 'pobl fel ni' ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli yn y cynnig.
- Hyfforddi gwirfoddolwyr i fod yn Eiriolwyr Amrywiaeth ac amrywio'r gwirfoddolwyr: 'gall sefydliadau newid drwy symleiddio prosesau recriwtio ac ymgeisio' — er bod recriwtio rhai prentisiaid heb gymwysterau yn wynebu rhywfaint o wrthwynebiad a bod rhai o'r gwirfoddolwyr hyn gydag agweddau sydd wedi eu hymwreiddio yn dal dig tuag at y rhai newydd. Mae 26% o wirfoddolwyr newydd yn BAME ac mae gan 4% anabledd — mae'r ffigurau hyn yn mynd yn uwch a thu hwnt i dargedau.
- Rhannu'r dysgu gyda'i gilydd; fel sefydliad addysgiadol; creu cymuned o ymarfer trwy ei CPD ar gyfer gweithwyr proffesiynol amgueddfa, ac ehangu mynediad i'r casgliadau mewn amgueddfeydd ategol yn Nwyrain Llundain a Dundee.
- Mae staff yn teimlo eu bod wedi ymgrymuso a bod ganddynt awtonomi dros beth y maent yn dewis canolbwyntio arno.

Cwestiynau a ofynnir gan y V&A

- A ddylid taclo ehangu amrywiaeth o'r 'gwaelod i fyny' neu drwy 'ddiferu i lawr'?
- Sut y gall pawb yn yr Amgueddfa fynd i'r afael ag amrywiaeth yn ddyddiol sydd yn mynd y tu hwnt i'r rhaglen gyhoeddus?
- Pa un peth y gallwn ei wneud i wella profiad ymwelwyr newydd ac amrywiol?
- Sut y gallwn greu ffyrdd newydd o fesur amrywiaeth ein hymwelwyr?
- Sut i annog uwch-reolwyr i weithio'n effeithiol ar amrywiaeth ar draws meysydd / adrannau i gyd yr Amgueddfa?

Astudiaeth achos: Oriel Gelf Whitworth

Pam fod gwahodd pobl i mewn yn bwysig i Oriel Gelf Whitworth

Mae hyn wastad wedi bod yn bwysig iddynt. Agorwyd drysau Whitworth yn gyntaf yn 1889 i 'bobl o bob dosbarth cymdeithasol' fel yr oriel yn y parc i wrthbwysu bywyd dinasol. Ei gweledigaeth sefydlu oedd i fod yn le 'ar gyfer boddhad diddiwedd pobl Manceinion'.

Pan gymerodd Maria Balshaw drosodd fel Cyfarwyddwr Whitworth, ei gweithred gyntaf oedd tynnu'r wal i lawr a oedd rhwng yr Oriel a'r Parc sydd o'i chwmpas. Mae'r weithred hon yn dangos sut oedd y sefydliad yn dechrau proses o drawsnewid yn ei pherthynas â'i chynulleidfa oedd, yn seiliedig ar werthoedd a diwylliant agored, cynhwysol, chwareus a gonest.

Mae'r Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltiad, Esmé Ward, yn Gymrawd Clore ac wrth ddatblygu ei rôl mae hi'n benderfynol o gyflwyno a rhannu safbwyntiau gwahanol ar ymgysylltu, pwrpas cymdeithasol a chynhwysiant i'r sefydliad a'r sector. Mae hi'n gweld hyn fel proses hir-dymor sydd yn gofyn am ymrywmiad, hyder a 'dal eich nerf' — nid prosiectau byr-dymor yw'r llwybr tuag at amrywio cynulleidfa oedd.

Beth maent yn ei wneud sydd yn arbennig

- Cydnabod bod y sefydliad i gyd ar siwrne gyda'i gilydd a bod agoredrwydd i syniadau newydd yn hanfodol.
- Mabwysiadu ffordd fwy gobeithiol o weithio drwy ddysgu gan sectorau eraill a cheisio symud ymlaen drwy annog arweinyddiaeth ar draws pob lefel.
- Dod o hyd i ffyrdd newydd a llawn dychymyg i weithio'n gydweithredol ar draws Manceinion, er budd cynulleidfa oedd (rhan o'r weledigaeth strategol sydd yn ei galfaneiddio ar adeg anodd economaidd).

- Symud y paramedrau: mae model y diffyg o ehangu amrywiaeth drwy edrych ar bwy sydd ar goll yn canolbwyntio ar 'lenwi'r gwagloedd' yn y gynulleidfa. Yn lle hyn, mae Whitworth yn gweld amrywiaeth fel ased ac ysgogiad ar gyfer creadigedd sydd yn agor perspectifau newydd i fyny, 'dydych chi byth yn gwybod beth y gall pobl ddod at yr amgueddfa wrth i chi eu rhoi gyda'i gilydd â chasgliadau.'
- Gwneud argraff ar Fanceinion fel bod gan y Whitworth rôl go iawn a gwelwady o ran gwneud lle trwy gydweithredu a phartneriaethau, yn cynnwys cerddoriaeth a sefydliadau diwylliannol eraill (Esme yw Arweinydd Strategol Age Friendly Culture ar draws Manceinion). Fel rhan o Brifysgol Manceinion, mae'r Whitworth yn rhannu ei hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol a mynd i'r afael â materion dinasol ehangach fel mynd yn hyn, iechyd meddwl a chydlynid cymdeithasol.
- Gwneud y Whitworth yn 'le i'r bobl' ble y mae pobl ddieithr yn ymgynnull a ble mae pawb yn darganfod ystyr. Mae ymwelwyr wrth ei chalon ac mae'r sefydliad yn gyson yn meddwl am ffyrdd newydd o symud a newid sut y mae'n gweithio er mwyn cyflawni hyn.
- Bod yn gymydog da drwy fuddsoddi mewn ymgysylltu â phobl leol. Mae'n gwneud y Parc yn bwynt ffocws ar gyfer gweithgareddau sydd wedi eu targedu at wahanol grwpiau ac yn eu hymgysylltu mewn gwaith yr Oriol: mae'r gweithgareddau hyn yn ddi-dâl ac yn bwysig i ymgysylltu cynulleidfaoedd teuluol.
- Byw diwrnod gwahanol: 'nid yw iaith yr ymgynghoriad yn ddigon da. Rhaid i ni dreulio amser i feddwl am sut 'rydym yn gweithio gyda phobl.' Pan ei bod ar gau mae'r staff yn treulio diwrnod yr wythnos mewn sefydliad partner (e.e. Sure Start, ysgol gynradd ayb.) i weld pethau o ongl arall. 'Gall gweithio mewn adeilad drwy'r amser ddefnyddio'r egni i gyd a dod yn rhy gyfforddus.'
- Defnyddio'r Parc i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd: nid oedd dau draean o ddefnyddwyr y Parc wedi bod i'r Whitworth. Mae Ceidwad Diwylliannol y Parc a staff yn gweithio ar draws y Parc a'r Oriol i fynd â'n gwaith tu fewn i'r tu allan, a dod â'r tu allan i mewn. Mae'n gyfle gwych i ddod o hyd i resymau da i'w

gwahodd i mewn, er enghraifft, gyda Pop-up Picnics, Whitworth Welly Walks ayb.

Sut y maent yn cyflawni hyn

- Ail-feddwl hen ddoethder: *'roeddem yn tybio bod herio celf cyfoes yn estroniaethu rhai cynulleidfaoedd — ond y rhain oedd yn troi allan i fod yn fwy brwdfrydig, yn enwedig teuluoedd lleol. Roedd pryder gennym y bydd un grwp — fel teuluoedd ifanc a babanod — yn aflonyddu'r 40% o'n cynulleidfa sydd yn edrych am amser i adlewyrchu. Sgyrsiau a chyfeirio pobl at wahanol ardaloedd o'r Oriol oedd yn datrys hyn, fel ein bod yn ateb anghenion pawb.'*
- Bod yn ddewr drwy wneud mwy o bethau gyda'u hymwelwyr ac allan yn gyhoeddus.
- Cnocio ar ddrysau: datblygu eu synnwyr o sut y mae pobl yn cysylltu drwy fynd allan i'r gymuned i siarad â phobl hyn, porthorion, eglwysi a busnesau.
- Symud y berthynas: mae ymwelwyr Whitworth yn dechrau gofyn beth y gallwn ei wneud i'r Oriol? Yn lle beth y gall yr Oriol ei gwneud i ni.
- Bod yn berthnasol drwy ymateb i anghenion grwpiau amrywiol, er enghraifft:
 - Dosbarthiadau EAL: mae amgueddfeydd yn wagloedd cymdeithasol a chreadigol gwych ar gyfer caffael iaith ac mae hyn yn flaenoriaeth yn eu gwaith gyda ffoaduriaid a rhai trigolion lleol yn Moss Side.
 - Roedd 'Danger: Men at Work': yn mynd i'r afael â dynion hyn fel cynulleidfa heb ddigon o gynrychiolaeth o ran cyfranogiad diwylliannol, gan edrych ar eu lle yn y gymdeithas. Manceinion sydd â'r disgwyliad oes gwrywaidd isaf yn Lloegr, poblogaethau BAMER sylweddol, lefelau uchel o dlodi pensiynwyr, iechyd gwael ac anabledd.
 - Pobl ifanc: cynnig 'lle i feddwl yn wahanol' gyda hyfforddiant, cymorth a ffyrdd newydd o'u hymgrymuso trwy greu cyfleoedd ar gyfer gwaith a arweinir gan gymheiriaid a phlatfform i'w creadigedd a'u talent.
 - 'Gogledd a De Newydd': prosiect partneriaeth gyda sefydliadau celfyddydol o Ogledd Lloegr a De Asia, gyda chyd-gomisiynnu,

arddangosfeydd a chyfnewid deallusol i ddathlu treftadaeth sydd yn cael ei rhannu ar draws cyfandiroedd.

- ‘Sleisen groesgornel’ i ddod â thrawstoriad o staff o hyd a lled y sefydliad i ddod o hyd i ddatrysiadau i’r materion mawr.
- Hyfforddiant sydd yn seiliedig ar secondiadau a phartneriaethiau fel bod staff yn gweld sut y mae pobl mewn sefydliadau eraill yn gweithio a dysgu ffyrdd newydd o wneud pethau.
- Recriwtio pobl am fod ganddynt ddiddordeb a brwdfrydedd am bobl a chelf, yn hytrach nag am fod ganddynt radd — trwy ddiwrnodau agored, sianelau hysbysebu newydd — a sefydlu swyddi newydd fel Ceidwad Diwylliannol y Parc.

Cwestiynau a ofynnir gan Oriel Gelf Whitworth

- A oes angen iaith newydd arnom ar gyfer nodi pobl gan fod ein dulliau presennol yn aml yn estroniaethu ac yn ganlyniad o fodel y diffyg.
- Sut y gallwn fod yn rhan o’r drafodaeth ddinesig ehangach? Beth sydd angen i’r Whitworth fod a sut y byddwn yn mynd i’r afael â hyn? Lle i adlewyrchu, gwagle cymdeithasol, lle creadigol? Ble mae’r amgueddfa yn dechrau a gorffen?
- Sut y gallwn fod yn fwy perthnasol?
- Beth yw’r gwersi allweddol y gallwn ddysgu gan bobl eraill, yn enwedig o’r tu allan i’r sector, am gydraddoldeb a chynhwysiant?
- Ceisiwch. Profwch a dysgwch. Beth yw’r gwaethaf y gall ddigwydd?
- Beth os?

Partneriaid

Comisiynwyd y canllaw hwn gan grwp llywio o bartneriaid ar draws sector amgueddfeydd y DU:

openupmuseums.com

[Attribution-NonCommercial-NoDerivs CC BY-NC-ND](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/)

AIM: Association of Independent Museums

aim-museums.co.uk

Cofrestredig yn Lloegr Rhif: 1350939

Elusen Rhif: 1082215